# Hybu Cig Cymru – Dogfen Fframwaith

**Cynnwys**

**EGWYDDORION LLYWODRAETHU** ..... 1
**1. Cyflwyniad** ..... 3
**2. Diben y Cwmni** ..... 5
Dibenion Statudol a Strategol ..... 5
**3. Llywodraethu ac Atebolrwydd** ..... 6
Y Cyd-destun Cyfreithiol ..... 6
Swyddogaethau a Chyfrifoldebau ..... 6
Cyfrifoldeb Gweinidogol ..... 6
Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ..... 7
Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ..... 7
Tîm Partneriaeth ..... 8
Prif Swyddog Gweithredu ..... 9
Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni 10
Cyffredinol ..... 10
Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i Weinidogion Cymru ac i Fwrdd y Cwmni ..... 11
Atebolrwydd i Senedd Cymru ..... 11
Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru ..... 12
Cyfrifoldebau mewn perthynas â Bwrdd y Cwmni ..... 12
Rôl y Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Achosion yr Ombwdsmon ..... 13
Bwrdd y Cyfarwyddwyr ..... 13
Cyd-gyfrifoldebau ..... 14
Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni ..... 15
Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd ..... 16
Cyfrifoldebau Aelodau Unigol y Bwrdd ..... 17
Swyddogion Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd ..... 18
**4. Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd** ..... 18
Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol ..... 18
Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ..... 18
Cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ..... 18
Adroddiad Blynyddol i'r Gweinidog ..... 20
**5. Trefniadau Archwilio** ..... 20
Archwilio Mewnol ..... 20
Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ..... 20

Archwiliad Allanol ..... 21
Hawl i Mynediad Llywodraeth Cymru ..... 21
**6. Trefniadau Rheoli ..... 23**
Cyffredinol ..... 23
Rheoli Staff ..... 23
Buddion Staff a Gwobrau nad ydynt yn Daliadau ..... 24
Pensiynau a Thalu Wrth Ennill ..... 24
**7. Fframwaith Cynllunio ..... 26**
Llythyrau Cylch Gwaith ..... 26
Cynlluniau Busnes ..... 26
Cynlluniau Gweithredol ..... 26
Cyhoeddi Cynlluniau ..... 28
Cynllunio Cyllideb ..... 29
**8. Rheoli Perfformiad ..... 30**
Gofynion Adrodd ..... 29
Adrodd am Eithriadau ..... 29
Is-gwmnïau Cyllidebau Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf ar y Cyd ..... 29
**9. Cyllidebau Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf ..... 31**
Gwariant ..... 31
Cyllidebau Adnoddau ac Incwm ..... 32
Benthyca, Benthyca, Gwarantau a Buddsoddiadau ..... 33
Grantiau, Benthyciadau a Chontractau a ddyfarnwyd gan y Cwmni i Endidau eraill ..... 33
Rheoli Cymorthdaliadau yn y DU ..... 33
**10. Cymorth grant a Rheoli Arian Parod ..... 35**
Cymorth Grant ..... 35
Balansau Arian Parod ..... 35
Yn Y Flwyddyn.......... 35
Diwedd y Flwyddyn ..... 36
Adolygiad Blynyddol o Oddefiant Arian Wrth Gefn ..... 36
Safbwynt Llywodraeth Cymru ar Arian Wrth Gefn ..... 36
Gofynion Rheoli Llif Arian ..... 36
Llog a enillir ar arian parod a balansau banc ..... 36
**11. Darbodaeth, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd ..... 37**
Sylfaen Dystiolaeth ..... 37

Adolygiadau Teilwredig ....................................................................................37

**Atodiad A – Model Partneriaeth** ....................................................................38

Swyddogaeth Partneriaeth wedi'i nodi yn y Ddogfen Fframwaith Enghreifftiol....38

Hanfodion Partneriaeth Effeithiol.....................................................................38

Asesu Risg ……........……………………………………………………………….39

Cyfathrebu Effeithiol .....…....…......………………………………………………40

Sefydlu Presenoldeb Awdurdodol.......……………………………………………40

Sgiliau..……………………………………………………………………………….40

**Atodiad B - Dirprwyaethau**..........................................................................**42**

Trefniadau Galw i Mewn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus – Trefniadau Cymeradwyo, Cyn-hysbysu a Hysbysu..........................................................................**41**

**Atodiad C**.......................................................................................................**45**

Crynodeb o'r Gofynion Cymeradwyo a'r Terfynau Dirprwyo...............................45

**Atodiad D: Memorandwm ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu**....................................**48**

Cyfrifoldebau Cyffredinol y Swyddog Cyfrifyddu..........………………………..48

Cyfrifoldebau Penodol y Swyddog Cyfrifyddu ....................................................48

Gweithio mewn Partneriaeth .............................………………………………..50

Rheoleidd-dra a Phriodoldeb Gwariant ....……………………………………….50

Cyngor i'r Bwrdd…………....………………………………………………………..52

Ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin……………………………………………………………………………...50

Absenoldeb Swyddog Cyfrifyddu ………………………………………………...53

**Atodiad E**.......................................................................................................**54**

Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Corfforaethol y Llywodraeth Gyfan .....54

**Diwygiadau**

1.1 Mawrth 2024:

| | |
|---|---|
| Tudalen cynnwys | Wedi ychwanegu rhestr diwygiadau |
| 3.39 | Wedi diweddaru gwybodaeth diogelwch x 2 |

**EGWYDDORION LLYWODRAETHU**

***Egwyddorion Llywodraethu sy'n diffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru***

*Cenhadaeth a phwrpas ar y cyd*

**Cyflawni dros Gymru**. Mae cwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lywodraethu Cymru a chyflawni dyheadau dinasyddion Cymru. O safbwynt Llywodraeth Cymru, prif rôl cwmni o'r fath yw cyflawni ei gyfrifoldebau statudol neu bolisi, a chyflawni amcanion a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio arian y pleidleisiwyd arno gan Senedd Cymru (y Senedd). Mae'r berthynas hon yn cael ei chynnal drwy drefniant partneriaeth sy'n cael ei reoli ar ran Gweinidogion gan Lywodraeth Cymru. Gall cwmnïau fod â ffurfiau sefydliadol amrywiol, gan gynnwys elusennau a chyrff lled-farnwrol, a gallant gwmpasu awdurdodaethau y tu hwnt i Gymru. Gan barchu'r amrywiaeth hwn, mae Gweinidogion yn dal yn disgwyl i'r cwmnïau hyn gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau pwysig i bobl Cymru ar eu rhan yn bennaf.

**Canolbwyntio ar ganlyniadau a pherfformiad y Cwmni**. O fewn y cyfyngiadau wedi'u pennu gan statud ac ymrwymiadau Gweinidogol, bydd amcanion y cwmni, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu nodi ar ffurf canlyniadau sy'n glir, yn berthnasol, yn heriol, ac yn cyfrannu at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn hybu arloesedd ac effeithlonrwydd, bydd cwmnïau'n cael cymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran sut mae'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni. Ni ddylai llythyrau cylch gwaith unigol fod yn fwy rhagnodol nag sy'n ofynnol ar sail cyfrifoldebau'r cwmni. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith perfformiad asesu cyfraniad y cwmni tuag at gyflawni ei ganlyniadau.

*Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'i Chwmnïau*

**Perthynas wedi'i diffinio gan ymddiriedaeth a risg**. Dylai'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, ac ar agwedd gymesur at risg. Os oes tystiolaeth o berfformiad gwael neu lywodraethu gwan, bydd Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu agwedd 'ymarferol', fwy rhagnodol at y berthynas. Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod ei swyddogaethau partneriaeth yn perfformio'n effeithiol ac yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr egwyddorion hyn.

**Cydweithio effeithiol**. Mae cwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr am eu harbenigedd a'u profiad. Mae'r cwmnïau hyn, Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ac adeiladu 'Tîm Cymru', gan chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n ehangach ac yn ddyfnach wrth ddatblygu polisïau, a chefnogi ei gilydd a dathlu llwyddiant. Dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i arbed arian, nodi arbedion effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd ar y cyd ac yn egnïol.

**Cyfathrebu effeithiol**. Mae cwmnïau a Llywodraeth Cymru yn deulu estynedig ac yn ymrwymo i gynnal dull cyson, parchus a cholegol o ddelio â'i gilydd yn gyhoeddus ac yn breifat. Mae pob parti'n ymrwymo i ymdrechu i gyfathrebu'n effeithiol, i fod mor

agored â phosib, i rannu gwybodaeth ar sail 'dim byd annisgwyl' ac i reoli materion dadleuol drwy ddeialog a thrafodaethau.

*Llywodraethu ac atebolrwydd*

**Cadeirydd a Bwrdd y Cwmni**. Mae cadeiryddion byrddau cwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru yn ffigurau pwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru a byddant yn cael eu penodi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus. Mae byrddau'n atebol i Weinidogion am gyflawni'r amcanion wedi'u diffinio, am sicrhau llywodraethu corfforaethol o ansawdd uchel ac am oruchwylio gweithrediaeth y cwmni, gan gynnwys rôl y Prif Weithredwr neu gyfatebol fel Swyddog Cyfrifyddu'r cwmni.

**Prif rôl y bwrdd o ran goruchwylio'r Cwmni**. Dylai llywodraethu a'r drefn rheoli fewnol fod yn fater i fwrdd y cwmni yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar y bwrdd, prosesau archwilio mewnol ac allanol, ac Archwilio Cymru am sicrwydd. Dylai rôl Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar roi cyfrif am gyflawni amcanion a rheoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r cwmni. Dylai'r Ddogfen Fframwaith amlinellu rolau a disgwyliadau clir ar gyfer Gweinidogion, Cadeiryddion, byrddau, swyddogion gweithredol, Swyddogion Cyfrifyddu, timau partneriaeth ac archwilwyr.

**Rheoli perfformiad**. Er ein bod yn disgwyl i'r norm fod yn berfformiad da, llywodraethu effeithiol a pherthynas barchus, rhaid i'n dull gweithredu allu ymateb yn effeithiol i berfformiad gwael neu broblemau eraill. Os oes tystiolaeth o berfformiad gwael o ran amcanion, rheoli cyllid, effeithiolrwydd y bwrdd neu agweddau eraill ar lywodraethu, mae gan Lywodraeth Cymru'r hawl a'r cyfrifoldeb i chwarae mwy o ran a bod yn fwy rhagnodol. Bydd y gwaith o reoli perfformiad yn seiliedig ar risg, gan ddibynnu ar dystiolaeth rheolaeth fewnol gadarn i gefnogi dull ysgafnach neu, fel arall, i chwarae rhan fwy gweithredol lle nad yw risgiau'n cael eu rheoli mor foddhaol.

**Dirprwyo**. Mae Llywodraeth Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu cwmnïau yn dal yn atebol ar y cyd am yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario drwy'r cwmni. Fodd bynnag, ni ddylai'r drefn reoli arferol fod yn fwy rhagnodol nag sy'n angenrheidiol er mwyn cael sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n gywir a bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn ffordd gosteffeithiol. Bydd cyfrifoldeb ariannol yn cael ei ddirprwyo i'r graddau mwyaf posib, yn gyson â chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu.

**Ymateb i newid**. Mae'r byd yn newid, fel y mae blaenoriaethau gweinidogol, felly efallai y bydd angen ail-lunio swyddogaethau a dulliau darparu gwasanaethau cwmnïau neu, lle bo hynny'n fwy priodol, adolygu perthnasedd parhaus eu hamcanion a'u trefniadau cyfansoddiadol. O bryd i'w gilydd, gall Llywodraeth Cymru gynnal adolygiadau thematig neu sefydliadol manwl i sicrhau bod ei chyrff cyhoeddus, gan gynnwys cyrff hyd braich a chwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru, yn parhau i fod yn addas i'r diben ac i wneud cynigion ar gyfer diwygio. Dylai pob cwmni ddisgwyl cymryd rhan mewn Adolygiad Teilwredig unwaith ym mhob tymor y Senedd.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith hon wedi cael ei llunio gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â Hybu Cig Cymru (y "Cwmni").

1.2 Mae'r ddogfen yn egluro'r fframwaith bras y mae'r Cwmni'n gweithredu ynddo, yn rhestru o dan ba amodau a thelerau y gall Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau i'r Cwmni, ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r Cwmni, yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. Mae erthyglau cymdeithasu'r Cwmni yn llywodraethu rheolaeth y Cwmni o ddydd i ddydd.

1.3 Mae Gweinidogion Cymru'n cydnabod y gallai rhai o weithgareddau penodol y Cwmni fod yn ddarostyngedig i reoliadau neu ddeddfau penodol, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006, ac yn cydnabod mai'r deddfau neu'r rheoliadau hynny fydd drechaf os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Ddogfen Fframwaith ac unrhyw ddeddfau neu reoliadau perthnasol. Bydd unrhyw gwestiynau ynghylch dehongliad y Ddogfen Fframwaith hon yn cael eu datrys gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r Cwmni.

1.4 Mae gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio, a rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â phob swyddogaeth unigol yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol, gan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol. Ni fydd dim sy'n gynwysedig neu sydd ymhlyg yn y Ddogfen Fframwaith hon, neu sy'n codi oddi tani neu mewn cysylltiad â hi, mewn unrhyw fodd yn niweidio, yn llyffetheirio, neu'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu unrhyw rai ohonynt, nac yn rhwymo Gweinidogion Cymru, neu unrhyw rai ohonynt, i arfer eu swyddogaethau, neu ymatal rhag eu harfer, mewn unrhyw fodd penodol. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at unrhyw ddeddfwriaeth, boed yn gyfraith ddomestig, yn gyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu'n gyfraith ryngwladol yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau o'r cyfryw ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd. Mae'r Cwmni ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, ond bydd y berthynas â'r Cwmni o ddydd i ddydd yn cael ei goruchwylio gan y Tîm Partneriaeth.

1.5 Yn ogystal, rhaid i'r corff sicrhau ei fod, wrth gyflawni ei swyddogaethau, yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan):

- Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf.
- Gwybod Pwy sy'n gwneud Beth a Pham.
- Ymgysylltu ag Eraill.
- Byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Meithrin Darpariaeth Arloesol.
- Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu; a Sicrhau Gwerth am Arian.

1.6 Rhaid i'r corff hefyd sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau ar ran Llywodraeth Cymru, ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion

datblygu cynaliadwy (y "ffyrdd o weithio") fel y maent wedi'u hadrodd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.7 Rhoddwyd copïau o'r ddogfen hon, ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol, yn Llyfrgell Senedd Cymru (y "**Senedd**" ac maent ar gael i aelodau'r cyhoedd drwy wefan y Cwmni.

## 2. Diben y Cwmni

### Dibenion Statudol a Strategol

2.1 Sefydlwyd y Cwmni o dan Adran 4 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (y "Mesur"). Fel corff cyhoeddus, mae'n gweithredu fel cyfrwng darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru a'i rôl yw cyflawni ei gyfrifoldebau o fewn cyd-destun nodau strategol Llywodraeth Cymru. Prif bwrpas y Cwmni yw datblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru.

2.2 Mae Hybu Cig Cymru (HCC) yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant (Rhif Cwmni: 4635113) sydd ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru. Ei brif bwrpas yw datblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru.

2.3 Prif ffynhonnell gyllid HCC yw Ardoll Cig Coch Cymru (yr "**Ardoll**"). Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan adran 4 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (y "**Mesur**") i osod yr Ardoll hon. Mae'r arian ardoll hwn yn arian cyhoeddus a chaiff ei drin felly. Mae arian ardoll yn ddarostyngedig i reolaethau cyffredinol a phenodol ar wariant cyhoeddus a bennir gan Drysorlys EF a Llywodraeth Cymru. Mae'r Ardoll yn dâl sy'n daladwy gan gynhyrchwyr a phroseswyr / allforwyr ar bob anifail sy'n ymuno â'r gadwyn fwyd cig coch.

2.4 Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pŵer a'u swyddogaethau dirprwyedig o dan y Mesur Cig Coch i HCC drwy gytundeb dirprwyo, a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru a HCC ar 28 Mawrth 2008 ("y Cytundeb Dirprwyo"). Drwy'r Cytundeb Dirprwyo, mae HCC yn casglu'r ardoll yn y man lladd yng Nghymru neu'r man allforio, ac yn ymgymryd â'r swyddogaethau statudol mewn perthynas â diwydiant cig coch Cymru. Mae'r Cwmni'n darparu ei wasanaethau ar ran Gweinidogion Cymru yng nghyd-destun Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.

2.5 Mae ei swyddogaethau wedi'u nodi yn y Mesur fel y'u nodir gan Senedd Cymru. Gan weithio gyda'r Cwmni, mae Gweinidogion Cymru yn pennu ei amcanion strategol yn eu llythyr cylch gwaith. Mae'n rhaid i'r Cwmni egluro sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol yn ei gynllun busnes (gweler paragraff 7.3 isod).

2.6 Bydd yr amcanion strategol a'r cynllun busnes yn parhau i fod yn weithredol gydol y cyfnod y bydd y Llywodraeth y'u pennwyd oddi tani mewn grym ond byddant yn peidio â bod os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diddymu, uno neu newid swyddogaeth y Cwmni.

## 3. Llywodraethu ac Atebolrwydd

### Y Cyd-destun Cyfreithiol

3.1 Mae pwerau a dyletswyddau'r Cwmni wedi'u nodi yn ei Erthyglau Cymdeithasu.

3.2 Yn nhermau ei berthynas â Llywodraeth Cymru bydd [rhai o] weithgareddau'r Cwmni wedi'u cynnwys o dan egwyddorion Teckal sydd wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Bydd y Cwmni yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn i'r graddau y maent yn berthnasol iddo.

3.3 Mae'r Cwmni ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru. Mae'n rhaid iddo gyflawni ei weithgareddau yn unol â'r canlynol:

- Ei amcanion, fel y maent wedi'u nodi yn ei Erthyglau Cymdeithasu.
- Yr holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol.
- Telerau unrhyw gymeradwyaethau Cymorth Gwladwriaethol/Trefn Rheoli Cymorthdaliadau yn y DU perthnasol.
- Y llythyr cylch gwaith.
- Cynllun busnes fel y mae wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru; a'r egwyddorion, y rheolau a'r canllawiau a nodir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

### Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

### Cyfrifoldeb Gweinidogol

3.4 Mae'r Prif Weinidog wedi dyrannu'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r Cwmni i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig (y "**Gweinidog**"). Yn gyffredinol, mae'r Gweinidog yn arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yng nghyswllt y Cwmni ac yn atebol, yn y pen draw, i'r Senedd am weithgareddau'r Cwmni a sut mae'n defnyddio adnoddau. Nid yw'r Gweinidog yn gyfrifol am faterion gweithredol o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y Cwmni yw'r rhain.

3.5 Y Gweinidog sy'n pennu'r fframwaith polisi ar gyfer y Cwmni a bydd yn cyfarfod â Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni (y "**Bwrdd**") bob blwyddyn i adolygu perfformiad ac i drafod gweithgareddau cyfredol ac yn y dyfodol.

3.6 Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys y canlynol:

- Penodi Cyfarwyddwyr y Bwrdd.
- Penodi'r Cadeirydd.
- Cymeradwyo penodiad y Prif Swyddog Gweithredol.

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cwmni am weithgareddau Llywodraeth Cymru yn y meysydd y dirprwywyd swyddogaethau statudol i'r Cwmni (fel y nodir yn y Mesur);

- Cytuno ar nodau ac amcanion strategol a phrif dargedau'r Cwmni.

3.7 Gall y Gweinidog, pan fo hynny'n briodol, weithredu drwy swyddogion yn Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

**Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**

3.8 Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru.  Mae gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldebau sydd wedi'u pennu gan Drysorlys EF ac mae'n atebol i'r Senedd (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd) ac i Senedd y DU (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am y canlynol:

- Rheoleidd-dra a phriodoldeb cyllid Llywodraeth Cymru.
- Cadw cyfrifon priodol yng nghyswllt Gweinidogion Cymru.
- Defnyddio'r adnoddau y penderfynwyd eu rhoi i'r Cwmni o dan Gynnig y Gyllideb Flynyddol yn y Senedd mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

3.9 Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y dulliau rheoli cyllid a dulliau rheoli eraill sy'n cael eu defnyddio ar draws Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu cyllid cyhoeddus.

**Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol**

3.10 Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru yn cael cymorth i wneud ei ddyletswyddau gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, y mae wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac y mae wedi dirprwyo cyfrifoldeb iddo dros yr Is-adran y mae tîm partneriaeth y Cwmni yn rhan ohoni.

3.11 Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, gyfrifoldeb i gefnogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (a drwy'r Prif Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog a'r Senedd) i sicrhau:

i. Bod y dulliau rheoli ariannol a'r dulliau rheoli eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu cyllid cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, bod y dulliau y mae'r Cwmni yn eu defnyddio yn cydymffurfio â'r gofynion o ran priodoldeb a rheolaeth ariannol dda.

ii. Bod datganiad digonol o'r berthynas ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cwmni (hynny yw, y Ddogfen Fframwaith hon) a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd; a bod ansawdd perthynas Llywodraeth Cymru â'r Cwmni yn dal yn dda.

iii. bod yr amodau sydd ynghlwm â'r adnoddau neu'r cymorth grant a ddyfarnwyd yn cydymffurfio â thelerau'r Gyllideb a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiad y Cwmni â'r amodau hynny.

3.12 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith yng nghyswllt y canlynol:

i. Mynd i'r afael â phroblemau sylweddol o fewn y Cwmni, gan roi pa ymyriadau bynnag sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar waith.

ii. Rhoi gwybod i'r Cwmni am bolisïau perthnasol y llywodraeth mewn modd amserol.

iii. Yn gyfnodol, cynnal asesiad o'r risgiau i Lywodraeth Cymru ac i amcanion a gweithgareddau'r Cwmni.

iv. Monitro gweithgareddau'r Cwmni a'i sefyllfa ariannol drwy gyfarfodydd ac adroddiadau rheolaidd.

v. Dwyn unrhyw bryderon am weithgareddau'r Cwmni sy'n galw am eglurhad neu sicrwydd y bydd camau unioni'n cael eu cymryd i sylw bwrdd llawn y Cwmni.

vi. Dynodi Prif Weithredwr y Cwmni yn Swyddog Cyfrifyddu, oni bai fod y Mesur yn berthnasol fel arall.

3.13 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gyfrifol am roi cyngor i'r Gweinidog ar y canlynol:

i. Amcanion strategol priodol ar gyfer y Cwmni yng ngoleuni nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru a dangosyddion perfformiad ac elfennau i'w cyflawni allweddol.

ii. Cyllideb briodol ar gyfer y Cwmni yng ngoleuni blaenoriaethau gwario cyffredinol y Grŵp.

iii. Pa mor llwyddiannus yw'r Cwmni o ran cyflawni ei amcanion strategol o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennwyd gan y Gweinidog ac a yw'n rhoi gwerth am arian.

3.14 Mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol ar waith.

**Tîm Partneriaeth**

3.15 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cwmni o ddydd i ddydd i Ddirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Amaethyddiaeth, Datblygu Cynaliadwy (y "Dirprwy Gyfarwyddwr") sy'n arwain y tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru.

3.16 Y Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n arwain y tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru a bydd yn cydweithio'n agos â Phrif Weithredwr y Cwmni ac yn atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Y Dirprwy Gyfarwyddwr hefyd yw'r brif ffynhonnell cyngor i Weinidogion Cymru ar gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cwmni ac mae'n cefnogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cwmni.

3.17 Mae'r cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- Monitro ac adolygu perfformiad HCC yn erbyn targedau, gan adrodd i Weinidogion a Phwyllgorau'r Senedd fel y bo'n briodol.

- Monitro sefyllfa ariannol a pherfformiad HCC yn erbyn cynlluniau drwy gyfarfodydd rheolaidd.

- Adrodd i Weinidogion a Phwyllgorau priodol y Senedd ar berfformiad ariannol.

3.18 Y pwynt cyswllt arferol ar gyfer y Cwmni o ran delio â Llywodraeth Cymru yw Pennaeth y gangen Polisi Ffermio'r Dyfodol yn y tîm partneriaeth. Dylai'r Cwmni roi gwybod i'r gangen hon os yw'n bwriadu cyfarfod â maes arall yn Llywodraeth Cymru (ac eithrio cyfarfodydd a thrafodaethau â'r Uned Cyrff Cyhoeddus).

3.19 Bydd swyddogion y tîm partneriaeth yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion y Cwmni i adolygu perfformiad ariannol y Cwmni yn erbyn cynlluniau a'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn targedau. Bydd y corff yn darparu cyfrifon rheoli i'r tîm partneriaeth o leiaf bob chwarter. Dylai gwybodaeth am gyfrifon rheoli gynnwys ffigurau gwirioneddol a rhagolygon ar gyfer incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau ac ecwiti. Bydd y tîm partneriaeth hefyd yn manteisio ar y cyfle i hysbysu ac egluro datblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y Cwmni. Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau'r tîm partneriaeth ar gael yn **Atodiad A**.

**Prif Swyddog Gweithredu**

3.20 Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob un o gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'i chylch gwaith yn ddarostyngedig i'r rheolaethau perthnasol a'u bod yn cael rhyddid priodol i reoli eu cyfrifoldebau.

3.21 Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi dirprwyo cyfrifoldeb penodol i'r timau canlynol.

Bydd y Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethu Cyrff Cyhoeddus:

- Yn sicrhau bod yr holl gyrff hyd braich sydd newydd eu creu wedi'u sefydlu'n briodol, ac yn sicrhau bod y cytundebau a'r dogfennau priodol ganddynt ar waith trwy gyfrannu at a chlirio Cyngor Gweinidogol ar gyrff newydd cyn eu cyflwyno i Weinidogion.

- Yn darparu cyngor a gwybodaeth i dimau partneriaeth ar faterion atebolrwydd a llywodraethu, gan gynnwys dogfennau rheoli a phartneriaeth priodol, mewn ymgynghoriad â thimau cyllid a llywodraethu corfforaethol fel bod pob corff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau llywodraethu.

Bydd y tîm Recriwtio Adnoddau Dynol:

- Yn sicrhau bod pob penodiad i swyddi anweithredol neu gyfwerth ar fyrddau cyrff a chwmnïau Llywodraeth Cymru, pan fo'r rhain yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus o dan y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar Benodiadau Cyhoeddus, yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu.
- Pan nad yw'r Cod yn gymwys, sicrhau bod penodiadau yn unol ag egwyddorion y Cod ac arferion gorau.
- Yn sicrhau bod penodiad Prif Weithredwyr ac uwch staff eraill yn bodloni egwyddorion y Cod ac arferion gorau.

Bydd y tîm Tâl a Gwobrwyo Adnoddau Dynol:

- Yn cadarnhau bod yr holl systemau talu a chynigion ar gyfer setliadau cyflog yn bodloni gofynion y cylch gwaith cyflog blynyddol a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol, cyflog cyfartal a materion eraill.
- Yn sicrhau bod cydnabyddiaeth aelodau anweithredol o'r bwrdd yn adlewyrchu'r cyfraniad a wneir ganddynt, gan reoli costau ac adlewyrchu cyfrifoldebau gwahanol cyrff gwahanol ar yr un pryd.
- Yn ystyried unrhyw gynigion sy'n ymwneud â darpariaeth pensiynau, taliadau iawndal neu gynlluniau diswyddo. Bydd angen i bob cynllun o'r fath sy'n seiliedig ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd, Llywodraeth Cymru, cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd.

## Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni

### Cyffredinol

3.22 Mae Prif Weithredwr y Cwmni yn adrodd i Gadeirydd y Cwmni. Y Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni hefyd fel yr eglurir yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*". Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol yn bersonol am stiwardiaeth briodol y cyllid cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano; am reoli'r Cwmni o ddydd i ddydd a'i weithrediadau; ac am sicrhau cydymffurfiad â gofynion "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*".

3.23 Mae'n bosibl y bydd cyflogeion y Cwmni yn helpu'r Prif Weithredwr i gyflawni ei rôl. Gall y Prif Weithredwr hefyd ddirprwyo'r gwaith o weinyddu'r cyfrifoldebau hyn o ddydd i ddydd i'r cyflogeion hynny ond bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol o dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu. Mae pob Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

3.24 Mae'n rhaid i'r bwrdd fod yn gwbl ymwybodol o gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu, a'u hystyried.

3.25 Mae rhagor o fanylion am gyfrifoldebau penodol Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni, gan gynnwys ei atebolrwydd i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a bwrdd y Cwmni, wedi'u nodi yn y Memorandwm "*Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cwmni Llywodraeth Cymru*", a bydd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol wedi anfon hwn at y Swyddog Cyfrifyddu. Mae Memorandwm enghreifftiol wedi'i atodi yn **Atodiad C** at ddibenion cyfeirio.

**Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i Weinidogion Cymru ac i Fwrdd y Cwmni**

3.26 Mae Prif Weithredwr y Cwmni yn cael ei benodi a'i gyflogi gan y bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Gweinidog. Y Prif Weithredwr yw prif gynghorydd y bwrdd yng nghyswllt cyflawni ei swyddogaethau ac mae'n atebol i'r bwrdd. Rôl y Prif Weithredwr yw rhoi arweiniad gweithredol i'r Cwmni a sicrhau bod nodau ac amcanion y bwrdd yn cael eu bodloni, a bod swyddogaethau'r Cwmni yn cael eu cyflawni ac y caiff targedau eu cyrraedd. Dylai Swyddog Cyfrifyddu sefydliad gael ei gefnogi gan Fwrdd sydd wedi'i strwythuro yn gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

**Atebolrwydd i Senedd Cymru**

3.27 Mae Swyddog Cyfrifyddu'r cwmni'n atebol i'r Senedd am y canlynol:

- Llofnodi'r cyfrifon a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw mewn perthynas â'r cyfrifon.
- Sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- Llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu i'w gynnwys yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.
- Llofnodi'r Datganiad Llywodraethu i'w gynnwys yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.
- Rhoi tystiolaeth, gan gynnwys mynd i wrandawiadau, ar faterion sy'n ymwneud â'r cwmni sy'n codi gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, pwyllgorau eraill y Senedd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgorau Seneddol eraill, i roi cyfrif am stiwardiaeth y cwmni o adnoddau cyhoeddus; a gweithredu ar unrhyw

argymhellion gan y pwyllgorau hynny sydd wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.

**Atebolrwydd i Lywodraeth Cymru**

3.28 Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni yn atebol i Lywodraeth Cymru, drwy ei thîm partneriaeth, am y canlynol:

- Sefydlu, mewn cytundeb â'r tîm partneriaeth, cynlluniau corfforaethol a gweithredol y Cwmni, gan ystyried cyfraniad y Cwmni at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Rhoi gwybod i'r tîm partneriaeth am y cynnydd o ran helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru a dangos sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion hynny.

- Sicrhau bod rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro am berfformiad a chyllid yn cael eu darparu i'r tîm partneriaeth; bod y tîm yn cael gwybod yn brydlon os yw gorwariant neu danwariant yn debygol, a bod camau cywiro'n cael eu cymryd.

- Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru (neu gymryd y camau priodol cyn rhoi gwybod) pan fydd penderfyniadau i'w gwneud sy'n bodloni'r meini prawf yn **Atodiad B**.

- Sicrhau bod y tîm partneriaeth yn cael gwybod am broblemau sylweddol cyn gynted â phosibl.

- Defnyddio "ffyrdd o weithio" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am ei berfformiad a'i wariant fel y gall Llywodraeth Cymru ofyn amdani'n rhesymol.

**Cyfrifoldebau mewn perthynas â Bwrdd y Cwmni**

3.29 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhoi cyngor i'r bwrdd ar gyflawni ei gyfrifoldebau fel y'u nodwyd yn y Ddogfen Fframwaith hon, deddfwriaeth berthnasol, Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog neu gyfathrebiad arall â'r Cwmni; yn ogystal ag unrhyw ganllawiau eraill a allai gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

- Rhoi cyngor i'r bwrdd ar berfformiad y Cwmni mewn perthynas â'i nodau a'i amcanion.

- Sicrhau bod y bwrdd yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau ariannol ar bob cam wrth ddod i benderfyniad a rhoi'r penderfyniad hwnnw ar waith, a bod technegau arfarnu ariannol addas yn cael eu dilyn.

- Sicrhau bod gan y Cwmni cyfan system sicrwydd a llywodraethu corfforaethol dda sy'n gyson ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

- Sicrhau y cynhelir system rheoli risg er mwyn llywio penderfyniadau am gynllunio ariannol a gweithredol, ac i helpu i gyflawni amcanion a thargedau.

- Sicrhau bod prosesau rheoli mewnol a rheoli ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys mesurau i warchod rhag twyll a dwyn (dylai camau o'r fath ymgorffori system gynhwysfawr o awdurdodau dirprwyedig mewnol).

- Sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am y Cwmni, gan gynnwys gweithdrefnau priodol ar gyfer cwynion chwythu'r chwiban.

- Datblygu a chynnal polisïau rheoli personél priodol, a sicrhau bod y polisïau hyn ar gael yn rhwydd i'r holl staff; a chymryd camau fel sy'n briodol, yn unol â thelerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu os bydd y bwrdd neu ei Gadeirydd yn ystyried gweithredu mewn ffordd sy'n cynnwys trafodyn y mae'r Prif Weithredwr yn credu y byddai'n torri'r gofynion o ran priodoldeb neu reoleidd-dra; sydd ddim yn adlewyrchu gweinyddu gochelgar neu ddarbodus neu effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd; bod amheuaeth ynghylch pa mor ymarferol ydyw; neu sy'n anfoesegol.

3.30 Rhaid i gydraddoldeb a gwaith teg fod wrth wraidd y ddarpariaeth o wasanaeth cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac, felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyrff a gaiff eu hariannu ganddi weithredu safonau cyflogaeth moesegol. Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod trefniadau cyflog y corff yn gyfartal i bawb, yn briodol, yn dryloyw, yn darparu gwerth am arian ac yn gwobrwyo staff yn deg am y gwaith maent yn ei wneud.

3.31 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch staffio yn y Cwmni. Mae hyn yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud ag amodau a thelerau staff; cynnig cynllun pensiwn; a sicrhau y dilynir arferion recriwtio a gwerthuso swyddi teg, priodol a chadarn. Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am gynigion penodol ar gyfer newid, gan gynnwys trefniadau dileu swyddi – gweler **Atodiad B** am y manylion.

3.32 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod taliadau cydnabyddiaeth yn cyd-fynd ag egwyddorion cyflogau sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Dylid rhoi gwybod i'r Uned Cyrff Cyhoeddus am bob newid i daliadau – gweler **Atodiad B**. Rhaid i Weinidogion gytuno ar unrhyw gynigion i wneud newidiadau sydd y tu allan i gwmpas yr egwyddorion cyflogau.

## Rôl y Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Achosion yr Ombwdsmon

3.33 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am ddelio ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

3.34 Penodir cyfarwyddwyr y Cwmni yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth gysylltiedig ac Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni.

3.35 Penodir y Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd gan y Gweinidog. Pan fydd y rhain yn benodiadau sy'n cael eu rheoleiddio, dylid eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Pan nad ydynt yn rhai sy'n cael eu rheoleiddio, anogir y Cwmni i ddilyn egwyddorion y cod ymarfer.

3.36 Mae'n rhaid i'r bwrdd weithredu mewn modd agored a thryloyw a rhaid iddo gyhoeddi ei aelodaeth, ei agendâu a'i gofnodion ar ei wefan.

**Cyd-gyfrifoldebau**

3.37 Ar ben y pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd i gyfarwyddwyr o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, yr Erthyglau Cymdeithasu, a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae rôl y bwrdd hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Arwain y Cwmni yn effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a gosod amcanion heriol.
- Hybu safonau uchel yng nghyswllt cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Cwmni'n cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, ac mewn ffordd sy'n gyson â'r "pum ffordd o weithio" (fel yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).
- Monitro perfformiad i sicrhau bod y Cwmni yn bodloni ei amcanion, ei nodau a'i dargedau perfformiad yn llawn.
- Hybu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan, sef: bod yn anhunanol, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, bod yn onest, ac arweinyddiaeth.

3.38 Mae'r bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

- Sefydlu a bwrw ymlaen â nodau ac amcanion strategol y Cwmni sy'n gyson â'i ddiben cyffredinol, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac sydd o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennwyd gan y Gweinidog.
- Sicrhau bod strategaethau ar gyfer cyflawni amcanion y Cwmni yn cael eu datblygu mewn cysylltiad â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill perthnasol, er enghraifft cyflogeion, cwsmeriaid a darparwyr cyllid.
- Sicrhau bod y Gweinidog a'r tîm partneriaeth yn cael yr holl wybodaeth am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y Cwmni neu ar ba mor gyraeddadwy yw ei dargedau, a'r camau y mae angen eu cymryd i ddelio â newidiadau o'r fath.
- Sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw ofynion gweinyddol neu statudol sy'n ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus.

- Sicrhau bod y Cwmni yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno gyda'r tîm partneriaeth ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus.

- Sicrhau bod y Cwmni, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

- Sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth ariannol am reolaeth y Cwmni ac yn adolygu'r wybodaeth honno'n rheolaidd.

- Sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybod yn brydlon am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar faint o adnoddau fydd eu hangen yn y dyfodol ac unrhyw newidiadau i bolisïau neu ymarfer a allai gael goblygiadau ariannol eang.

- Cymryd camau unioni priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu newidiadau sydd â goblygiadau ariannol eang, a rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog drwy'r tîm partneriaeth yn eu cylch.

- Dangos safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i helpu'r bwrdd i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill.

- Penodi Prif Swyddog Gweithredol. Rhaid cael cymeradwyaeth gweinidogol cyn penodi, yn unol â'r matrics dirprwyaethau sydd wedi'i nodi yn **Atodiad B.**

- Sicrhau bod y Cwmni'n ystyried cyfleoedd cyfartal wrth gymeradwyo polisïau a gwneud penderfyniadau; a sicrhau y rhoddir trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, archwilio mewnol, archwilio allanol a rheolaeth fewnol, yn unol â gofynion statudol a rheoleiddio perthnasol a, phan fo'n berthnasol, Codau Ymarfer neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r sector.

3.39 Mae'r bwrdd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- Enwebu aelod gweithredol neu anweithredol o'r bwrdd i fod yn Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod risgiau ac asedau gwybodaeth yn y sefydliad yn cael eu rheoli fel proses fusnes yn hytrach na mater technegol. Bydd yr Uwch-berchennog yn sicrhau bod risgiau gwybodaeth sy'n effeithio ar amcanion busnes y Corff yn cael eu hysbysu i'r Bwrdd ac yn cael sylw.

- Cadw at Safon Swyddogaeth y Llywodraeth GovS 007:Diogelwch; cwblhau Archwiliad Iechyd Diogelwch Adrannol blynyddol Swyddfa'r Cabinet i'w ddychwelyd i Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth Llywodraeth Cymru; sicrhau ardystiad annibynnol o drefniadau diogelwch i Cyber Essential Plus ac IASME Cyber Assurance Lefel 2.

3.40 I wneud hyn, bydd yn rhaid i'r bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid iddo

sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a fydd yn cael ei gadeirio gan aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd) i roi cyngor annibynnol iddo. Rhaid i’r bwrdd sicrhau ei hun o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol a rheoli risg.

3.41 Nid yw cyfrifoldeb personol y Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn lleihau cyfrifoldeb aelodau’r bwrdd mewn unrhyw ffordd. Mae gan bob aelod o’r bwrdd ddyletswydd i weithredu mewn ffordd sy’n hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus ac i sicrhau y cynhelir gweithgareddau’r Cwmni mewn modd effeithlon ac effeithiol. Ni ddylai’r bwrdd roi unrhyw gyfarwyddiadau i’r Prif Weithredwr sy’n gwrthdaro â’i ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu’r Cwmni.

**Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni**

3.42 I’r graddau a ganiateir gan y Mesur, gall y bwrdd ddirprwyo’r cyfrifoldeb dros weinyddu materion rheoli bob dydd i staff ond bydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn y pen draw am yr holl faterion hynny. Mae’n rhaid i’r Cwmni gadw rhestr o faterion a gedwir yn ôl ar gyfer eu penderfynu gan ei Fwrdd yn ogystal â chynllun dirprwyo sydd wedi’i gymeradwyo gan y bwrdd.

3.43 Bydd y Cadeirydd yn adrodd i Lywodraeth Cymru, drwy Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cwmni. Bydd Gweinidogion Cymru, drwy Lywodraeth Cymru, yn cael eu cynrychioli yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol cymwys, neu ei ddirprwy.

3.44 Mae’n rhaid i’r Bwrdd weithredu mewn modd agored a thryloyw a rhaid iddo gyhoeddi ei aelodaeth, ei agendâu a’i gofnodion ar ei wefan.

**Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd**

3.45 Mae’r Cadeirydd yn atebol i’r Gweinidog ac i’r bwrdd, a gall hefyd gael ei ddal i gyfrif gan y Senedd. Wrth gynnal ei fusnes arferol, rhaid cynnal unrhyw gyfathrebu rhwng y bwrdd a Gweinidogion Cymru drwy’r Cadeirydd. Rhaid i’r Cadeirydd sicrhau bod aelodau eraill y bwrdd yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o’r fath.

3.46 Y Cadeirydd sy’n gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithredoedd y bwrdd yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog, a bod busnes y Cwmni yn cael ei gynnal ag uniondeb. Pan fo hynny’n briodol, mae’n rhaid i’r Cadeirydd wneud trefniadau i gyfleu’r polisïau a’r gweithredoedd hyn a’u lledaenu drwy’r Cwmni.

3.47 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldebau arwain penodol am y canlynol:

- Llunio strategaethau’r bwrdd.
- Sicrhau bod y bwrdd, wrth wneud ei benderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion rheoli ariannol a statudol a’r holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru.
- Hybu defnyddio staff ac adnoddau eraill yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethu.

- Mynegi barn y bwrdd i'r cyhoedd.

3.48 Rhaid i'r Cadeirydd wneud y canlynol hefyd:

- Sicrhau bod holl aelodau'r bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ynghylch telerau eu penodiad a'u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

- Sicrhau ei fod, ynghyd ag aelodau eraill y bwrdd, yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar y gofynion rheoli ariannol ac adrodd sy'n berthnasol i gyrff sector cyhoeddus ac ar y gwahaniaethau sy'n gallu bodoli rhwng ymarfer yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

- Sicrhau bod gan y bwrdd gydbwysedd priodol o sgiliau a chefndiroedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru orau i gyfarwyddo busnes y Cwmni.

- Mewn achosion pan mai'r Gweinidog sy'n penodi i swyddi gwag ar y bwrdd, rhoi cyngor i'r Gweinidog ar anghenion y Cwmni a sut gallai'r bwrdd adlewyrchu amrywiaeth Cymru orau.

- Asesu perfformiad aelodau unigol o'r bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

- Sicrhau bod Cod Ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r bwrdd, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ynghylch buddiannau a gwrthdaro rhwng buddiannau aelodau'r bwrdd, yn cael ei roi ar waith a'i fod yn gyson â Chod Enghreifftiol Llywodraeth Cymru.

**Cyfrifoldebau Aelodau Unigol y Bwrdd**

3.49 Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, mae'n rhaid i aelodau'r bwrdd wneud y canlynol:

- Cydymffurfio bob amser â Chod Ymddygiad y Cwmni i Aelodau'r Bwrdd ac â'r holl reolau perthnasol sy'n ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus a gwrthdaro rhwng buddiannau.

- Peidio â chamddefnyddio gwybodaeth maent yn ei chael yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er eu budd personol eu hunain neu fantais wleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle y mae gwasanaeth cyhoeddus yn ei roi i hyrwyddo eu buddiannau preifat neu fuddiannau unigolion neu sefydliadau y mae ganddynt berthynas â nhw.

- Cydymffurfio â rheolau ynghylch derbyn rhoddion a lletygarwch, a buddiannau busnes allanol.

- Datgan pob achos posib a gwirioneddol o wrthdaro rhwng buddiannau i'r Cadeirydd a diweddaru'r wybodaeth hon o leiaf unwaith y flwyddyn neu pan fydd amgylchiadau'n newid.

- Gweithredu'n ddidwyll bob amser ac er budd gorau'r Cwmni.

**Presenoldeb Swyddogion Llywodraeth Cymru yng Nghyfarfodydd y Bwrdd**

3.50 Er na ddylent fynychu fel mater o drefn, mae Gweinidogion Cymru yn cadw’r hawl i’w swyddogion fynychu cyfarfodydd bwrdd y Cwmni fel cynghorwyr a/neu sylwedyddion. Gall y bwrdd hefyd eu gwahodd i fod yn bresennol er mwyn rhoi gwybodaeth neu gyngor penodol.

3.51 Mae’n rhaid i’r Cwmni roi agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd i’r tîm partneriaeth ymlaen llaw er mwyn iddo ystyried a yw swyddogion yn awyddus i fod yn bresennol ac i gyfrannu at y trafodaethau. Dylid darparu’r papurau i Lywodraeth Cymru ar yr un pryd ac y maent yn cael eu darparu i aelodau’r bwrdd. Hefyd, dylai’r Cwmni dynnu sylw’r tîm partneriaeth at unrhyw faterion anodd, anarferol, dadleuol neu a allai gael effeithiau pellgyrhaeddol na ddymunid a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y bwrdd.

3.52 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae unrhyw ran ym mhroses gwneud penderfyniadau unrhyw Fwrdd. Rhaid llunio cytundeb ffurfiol sy’n rhoi manylion ynghylch rôl swyddogion Llywodraeth Cymru wrth fynychu cyfarfodydd y bwrdd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 4. Gofynion Cyfrifyddu ac Adrodd

### Cyfrifyddu ac Adrodd Statudol

4.1 Mae gofynion adrodd a chyfrifyddu statudol y Cwmni wedi'u nodi yn Neddf Cwmnïau 2006. Bydd y Cwmni yn paratoi, cymeradwyo, llofnodi a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys i'w sector.

### Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

4.2 Rhaid i'r Cwmni baratoi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a Deddf Cwmnïau 2006.

4.3 Er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi cyfrifon, dylid cadw cofrestrau o'r canlynol:

- Rhoddion a gafwyd ac a roddwyd;
- Lletygarwch a gafwyd ac a gynigiwyd;
- Colledion a thaliadau arbennig fel y maent wedi'u disgrifio yn *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*".

4.4 Mae'r cofrestrau hyn yn ei gwneud yn bosibl bodloni'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"*.

4.5 Yn ychwanegol at ofynion y Ddeddf Cwmnïau, mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y ddogfen Cyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol yn gwneud y canlynol:

- Amlinellu prif weithgareddau a pherfformiad y Cwmni yn y flwyddyn ariannol flaenorol.
- Adrodd ar berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol ac elfennau eraill sydd i'w cyflawni.
- Adrodd ar weithgareddau unrhyw gyrff corfforaethol sydd o dan ei reolaeth.
- Esbonio'r berthynas rhwng y Cwmni a Gweinidogion Cymru fel aelodau o'r Cwmni mewn ffordd glir a hawdd ei deall.

### Cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol

4.6 Cyn gynted ag y bydd yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i'r Cwmni gysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd allanol arall pan fo hynny'n briodol a'r tîm partneriaeth i drafod yr union amserlen ar gyfer cyflwyno a chyhoeddi'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Ni chaniateir cyhoeddi'r Adroddiad tan ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

4.7 Mae'n rhaid i'r Corff gyflwyno'r cyfrifon, wedi'u llofnodi, ynghyd â llythyr sylwadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd allanol arall pan fo hynny'n briodol.

4.8 Hefyd, bydd copi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi yn cael ei anfon ymlaen at y tîm partneriaeth. Bydd y Gweinidog yn gosod y cyfrifon gerbron y Senedd.

4.9 Hefyd, efallai y bydd yn ofynnol i'r Cwmni ddarparu gwybodaeth benodol am y cyfrifon ar gyfer y broses Cyfrifon Llywodraeth Gyfan a chaniatáu asesiad ynghylch a yw'r corff o fewn ffin gyfrifyddu Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae swyddogaeth Cyllid Llywodraeth Cymru, drwy'r rhwydwaith Penaethiaid Adnoddau cyrff cyhoeddus, yn dweud beth yw'r gofynion o ran amseriad a chwmpas yr wybodaeth bob blwyddyn. Rhaid darparu gwybodaeth am gyfrifon rheoli i'r tîm partneriaeth o leiaf bob chwarter.

4.10 Os yw'r corff o fewn ffin gyfrifyddu Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, rhaid darparu cyfrifon drafft i swyddogaeth Cyllid Llywodraeth Cymru mewn modd amserol – cytunir ar yr amserlenni yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn dilyn hynny, rhaid darparu'r cyfrifon archwiliedig ac adroddiad ISA 260 i swyddogaeth Cyllid Llywodraeth Cymru. Os oes anghysondeb rhwng polisïau cyfrifyddu'r corff a pholisïau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, dylid darparu crynodeb o effaith yr anghysondeb. Pan fydd swyddogaeth Cyllid Llywodraeth Cymru yn gofyn, dylid darparu cadarnhad ar gyfer datgeliadau penodol Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.

**Adroddiad Blynyddol i'r Gweinidog**

4.11 Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd bob blwyddyn ariannol, bydd y Cwmni yn cyflwyno adroddiad ar ei weithgareddau i'r Gweinidog. Bydd fformat manwl yr adroddiad blynyddol cyhoeddedig yn cael ei drafod gyda'r Tîm Partneriaeth, ond dylai o leiaf ddangos sut mae'r Cwmni wedi:

- Cyflawni'r amcanion roedd y Gweinidog wedi'u pennu ar ei gyfer;
- Defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r cynnydd mae wedi'i wneud o ran cyfrannu at y saith nod llesiant.

4.12 Ar ôl ei gyflwyno i'r Gweinidog, dylai'r Cwmni gyhoeddi ei adroddiad er mwyn caniatáu i'r Senedd, cleientiaid eraill a'r cyhoedd farnu ei lwyddiant o ran cyrraedd ei dargedau.

# 5. Trefniadau Archwilio

## Archwilio Mewnol

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

5.1 Mae'n rhaid i'r Cwmni sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o blith aelodau ei Fwrdd i roi cyngor i'w Swyddog Cyfrifyddu a'r bwrdd ynghylch pa mor ddigonol yw'r trefniadau yn y sefydliad ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol a materion cysylltiedig â llywodraethu corfforaethol. Wrth sefydlu ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, dylai'r cwmni gyfeirio at y canllawiau sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Risg. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adrodd ac yn atebol i'r bwrdd fel is-bwyllgor o'r bwrdd hwnnw a bydd yn cael ei gadeirio gan aelod o'r bwrdd (nid y Cadeirydd) sydd ag aelodaeth gwbl anweithredol. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhannu copïau o gofnodion ei gyfarfodydd â Llywodraeth Cymru. Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg os bydd amgylchiadau'n mynnu hynny, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraffau 3.50 – 3.52.

5.2 Mae'n rhaid i'r Cwmni wneud y canlynol:

- Sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer archwilio mewnol sy'n gydnaws â'r amcanion, y safonau a'r arferion sydd wedi'u disgrifio yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-internal-audit-standards

- Sicrhau, pan fydd y swyddogaeth archwilio'n cael ei darparu'n fewnol, y gwneir trefniadau i gynnal adolygiadau o ansawdd allanol o leiaf bob pum (5) mlynedd ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw'n gallu dibynnu ar yr adolygiadau hyn i ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd prosesau archwilio mewnol y Cwmni.

- Ar ôl cael cymeradwyaeth Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, cyflwyno'r strategaeth archwilio, cynlluniau archwilio cyfnodol a'r adroddiad archwilio blynyddol (gan gynnwys barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar reoli risg, rheoli a llywodraethu) i'r tîm partneriaeth bob blwyddyn.

- Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i gylch gwaith y trefniadau archwilio mewnol a/neu ei Bwyllgor Archwilio.

5.3 Bydd Llywodraeth Cymru:

- Yn unol â'r trefniadau goruchwylio y cytunwyd arnynt, yn asesu effeithiolrwydd trefniadau archwilio mewnol y corff drwy graffu ar ei gynlluniau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, adroddiadau ar weithgareddau yn y gorffennol

a’i adroddiad sicrwydd blynyddol (hy fel y paratowyd gan Bennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol y corff, gan roi ei farn am brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu).

- Yn meddu ar yr hawl i gael mynediad at yr holl ddogfennau sy’n cael eu paratoi gan archwilydd mewnol y corff, gan gynnwys pan mae’r gwasanaeth yn cael ei gynnig ar gontract allanol.

5.4 Caiff y Pwyllgor Archwilio a Risg ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol (ond nid y Cadeirydd) sydd â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol, ac sydd wedi ennill cymhwyster proffesiynol gan gorff cyfrifyddu.

5.5 Mae gan Weinidogion Cymru hawl i enwebu cynrychiolydd i fynychu unrhyw rai o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Oherwydd bydd y cynrychiolydd hwnnw’n mynychu’r cyfarfodydd, bydd yn cael copi o’r holl bapurau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg, a bydd yn eu rhannu â Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddarparu sicrwydd ynghylch sefydliadau sy’n rhan o gylch gwaith cyfrifyddu Gweinidogion Cymru. Bydd cytundeb sylwedydd ffurfiol sy’n egluro rôl sylwedydd Llywodraeth Cymru yn cael ei lunio a’i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a’r Cwmni.

**Archwilio Allanol**

5.6 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol HCC a benodwyd drwy gytundeb o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

5.7 Bydd y Cwmni’n rhoi bob cymorth, gwybodaeth neu esboniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, ag y bydd yn rhesymol iddo ofyn amdano wrth gyflawni ei gyfrifoldebau. Os yw’n ofynnol ei fod yn gwneud hynny, bydd y Cwmni’n trefnu bod ei archwilydd allanol yn darparu’r rhesymeg dros ei farn archwilio i Lywodraeth Cymru ac i archwilwyr allanol Llywodraeth Cymru.

5.8 Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i weld pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol mae’r corff wedi bod wrth ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau, a gall wneud argymhellion bod cyrff yn gwella o ran pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y maent wrth gyflawni eu swyddogaethau, ac astudiaethau eraill cysylltiedig â darparu gwasanaethau. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â’r archwiliad ariannol statudol, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl statudol i gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth sydd gan unigolion perthnasol.

**Hawl Mynediad Llywodraeth Cymru**

5.9 Mae’n rhaid i’r Cwmni, yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl ichi dderbyn cyfnod rhesymol o rybudd (dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i’r Cwmni), ymweld â’i eiddo a/neu arolygu unrhyw un neu rai o’i weithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o’i lyfrau cyfrifon a pha bynnag ddogfennau neu gofnodion eraill, sut bynnag y’u

cedwir, a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r modd mae'n defnyddio'r cyllid a ddarparwyd. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd, neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod, ac mae'r ymgymeriad yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau a phwerau statudol hynny.

## 6. Trefniadau Rheoli

### Cyffredinol

6.1 Rhaid i'r Cwmni bob amser ddilyn yr egwyddorion, y rheolau, y canllawiau a'r cyngor sydd yn *"Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*" a'r Ddogfen Fframwaith hon. Rhaid i'r Cwmni gyfeirio unrhyw anawsterau neu geisiadau am eithriadau i ofyniad y Ddogfen Fframwaith at y tîm partneriaeth yn y lle cyntaf. Os oes angen gwyro oddi wrth y Ddogfen Fframwaith hon, rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar hyn yn ysgrifenedig. Mae rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i'r Corff gydymffurfio â nhw yn **Atodiad D**.

6.2 O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn am wybodaeth a data penodol gan y Cwmni. Mae'n bosibl hefyd y cyhoeddir cyngor a chanllawiau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyrff Cyhoeddus, yn ogystal â Thrysorlys EF.

6.3 Mae'n rhaid i'r Cwmni sicrhau bob amser bod ei berthynas â Llywodraeth Cymru yn cael ei chydnabod yn briodol drwy ddefnyddio nod brand Llywodraeth Cymru.

6.4 Er mwyn cyflawni ei nodau, bydd y Cwmni'n gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, gan adlewyrchu'r ymrwymiadau yng nghytundebau partneriaeth Gweinidogion Cymru â'r sectorau gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol.

### Rheoli Staff

6.5 Er bod y Cwmni'n gallu pennu cyflogau, telerau ac amodau ar gyfer y staff y mae'n eu cyflogi, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl iddo gynnig systemau cyflog teg a blaengar, hyblygrwydd o ran ffyrdd o weithio ac ymgynghori ystyrlon â staff. Fel cwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, disgwylir iddo adlewyrchu'r safonau uchel o wasanaeth cyhoeddus y mae Gweinidogion Cymru yn eu mynnu gan gyrff cyhoeddus Cymru. Dylai hefyd ystyried y cylch cyflog a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru i gyrff hyd braich.

6.6 Bydd y cwmni hefyd yn sicrhau:

- Y bydd polisïau rheoli a datblygu staff ar waith sy'n adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer arfarnu staff a rheoli perfformiad, gan gynnwys hyfforddi a datblygu i annog staff i ennill sgiliau proffesiynol a rheolaethol perthnasol, ac unrhyw sgiliau ac ymddygiadau eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni eu rolau.

- Bod ganddo God Ymddygiad ar gyfer ei staff, sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Bod ganddo weithdrefnau cwyno a disgyblu priodol ar waith, a threfniadau priodol i ddelio ag unrhyw bryderon gan staff ynghylch amhriodoldeb.

- Y bydd yn gweithio gyda'i undebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o'i staff a bydd yn dilyn egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.

- Y cynhelir ymgynghoriad ystyrlon â'i undebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o'i staff ar faterion sy'n effeithio arnynt.

6.7 Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod yr holl drefniadau cyflog wedi bod yn destun archwiliad cyflog cyfartal ac, ar ben hynny, bydd angen tystiolaeth o bryd i'w gilydd bod trefniadau sicrhau ansawdd annibynnol sy'n bodloni'r gofyniad hwn wedi cael eu rhoi ar waith.

6.8 Rhaid i'r holl drefniadau ar gyfer negodi cyflogau a materion cysylltiedig adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru o Bartneriaeth Gymdeithasol [a rhaid i'r corff gydnabod yr holl undebau llafur sy'n cynrychioli'r staff y mae'n eu cyflogi]. Bydd y corff hefyd yn sicrhau bod ei holl weithwyr yn cael eu talu dim llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol[1] fel y mae'n berthnasol i Gymru.

6.9 Bydd angen i'r Cwmni ystyried cyhoeddiad Trysorlys EM ym mis Mai 2012, *Review of the Tax Arrangements of Public Sector Employees*. Mae'r Canllawiau hyn yn cadarnhau'r angen i'r holl staff gael eu talu drwy drefniadau cyflogres. Mae trefniadau eraill lle mae staff (ac, yn benodol, uwch staff sy'n ennill dros £58,200 y flwyddyn) yn cael eu talu drwy gyfryngwyr gan gynnwys asiantaethau, busnesau cyflogaeth a chwmnïau gwasanaeth personol, yn annerbyniol. Bydd angen i'r Cwmni wneud digon o ymholiadau i sicrhau ei hun bod y rhai sydd wedi'u penodi ar secondiad ar gyflogres y sefydliad secondio, ac nad ydynt yn defnyddio trefniant cyfryngu.

### Buddion Staff a Gwobrau nad ydynt yn Daliadau

6.10 Wrth ystyried rhoddion neu wobrau nad ydynt yn daliadau i staff neu aelodau'r bwrdd, rhaid i'r Cwmni ystyried a yw camau o'r fath yn ffordd briodol o ddefnyddio arian cyhoeddus. Wrth lunio cynlluniau buddion staff neu gynlluniau gwobrwyo nad ydynt yn daliadau, rhaid i'r Cwmni roi sylw i ddogfen *"Regularity, Propriety and Value for Money"* Trysorlys EF a dogfen "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*" Llywodraeth Cymru.

### Pensiynau a Thalu Wrth Ennill

[1] Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gyfrifo gan y Resolution Foundation a'i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael am safonau byw yn y DU. Mae'r fasged o nwyddau'n defnyddio'r Safon Isafswm Incwm i nodi costau byw bob dydd drwy gonsensws cyhoeddus. https://www.livingwage.org.uk

6.11 Bydd staff cymwys a gyflogir gan y Cwmni yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar ei gynllun pensiwn galwedigaethol cymeradwy yn unol â'r Diwygiadau Pensiwn yn y Gweithle a nodir yn Neddf Pensiynau 2008 a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Cofrestru Awtomatig) (Diwygio) 2012. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru gael manylion ynghylch nifer y staff sy'n optio allan o'r cynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl cael eu cofrestru'n awtomatig.

6.12 Ers mis Ebrill 2013, mae wedi bod yn ofynnol o dan y gyfraith i gyflogwyr adrodd am gynlluniau Talu wrth Ennill (TWE) mewn amser real. Rhaid i gyflogwyr a darparwyr pensiynau roi gwybod i Gyllid a Thollau EF am dreth, cyfraniadau yswiriant gwladol a didyniadau eraill pan wneir y taliadau neu cyn hynny, yn hytrach nag aros tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 7. Fframwaith Cynllunio

### Llythyrau cylch gwaith

7.1 Ar ddechrau tymor y Llywodraeth, neu pan fo'n ymarferol, bydd y Gweinidog yn darparu llythyr cylch gwaith i'r Cwmni a fydd yn egluro'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cwmni. Bydd y trefniant hwn yn parhau i fod mewn grym gydol oes y llywodraeth (cyfnod y Llywodraeth), er y gellir diwygio'r cylch gwaith drwy rybudd ysgrifenedig, er enghraifft os bydd blaenoriaethau Gweinidogol yn newid. Mae proses cylch gwaith Cyfnod y Llywodraeth wedi'i nodi yn Atodiad B.

7.2 Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi llythyr cyllido cyn gynted â phosibl, ac fel arfer dim hwyrach na mis, ar ôl i'r Senedd gymeradwyo'r gyllideb derfynol. Bydd hwn yn nodi'r holl drefniadau cyllido perthnasol a bydd yn cynnwys ffigur y cymorth grant a bleidleisiwyd (lle bo hynny'n berthnasol) a'r gyllideb adnoddau, wedi'i rhannu'n gyfansymiau rheoli cyllideb.

### Cynlluniau Busnes

7.3 O fewn tri (3) mis i dderbyn y llythyr cylch gwaith, dylai'r Cwmni gyflwyno cynllun busnes i'r Gweinidog sy'n egluro sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol. Dylai'r cynllun terfynol, fel y cytunwyd arno gan y Gweinidog, adlewyrchu nodau ac amcanion strategol y Cwmni a bydd yn aros mewn grym gydol holl dymor y Llywodraeth (hynny yw am bum mlynedd o ddyddiad y llythyr) oni bai fod y cylch gwaith yn newid fel y nodir ym mharagraff 7.1.

7.4 Ar ddiwedd tymor y Llywodraeth, bydd y cynllun busnes yn parhau hyd nes y bydd y Llywodraeth newydd wedi pennu ei hagenda strategol.

### Cynlluniau Gweithredol

7.5 Bob blwyddyn ariannol, yng ngoleuni penderfyniadau Gweinidogion Cymru ar ddyraniad cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, bydd y Gweinidog yn anfon datganiad ffurfiol at y Cwmni ynghylch y gyllideb a ddarparwyd ar ei gyfer, yn unol â pharagraff 7.10 isod.

7.6 Mewn ymateb i hyn, bydd y Cwmni'n paratoi cynllun gweithredol blynyddol a fydd yn egluro lefel y gwasanaeth sydd i'w gyrraedd mewn meysydd allweddol a'r wybodaeth am berfformiad ac allbynnau sydd i'w casglu at ddibenion monitro cynnydd. Dylai'r cynllun gweithredol fod yn seiliedig ar lythyr cylch gwaith y Gweinidog, tymor cynllun busnes y Llywodraeth, a faint o gyllid fydd ar gael. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am benderfynu ar union gynnwys y cynllun hwn. Serch hynny, os mai dyna yw dymuniad y Gweinidog neu'r Cwmni, gellir gofyn am gymeradwyaeth Gweinidogol i'r cynllun gweithredol drwy'r tîm partneriaeth.

7.7 Mae'n rhaid i'r cynllun gweithredol adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n rhaid i'r Cwmni egluro sut y bydd yn defnyddio'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf a sut y bydd yn

cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant. Mae'r enghraifft o Sero Carbon Net (isod) yn enghraifft dda o'r mewnbynnau a'r canlyniadau sydd eu hangen.

| |
|---|
| **Sero Net – Yr Argyfwng Hinsawdd**<br><br>Mae'n hanfodol bod pob corff cyhoeddus yn chwarae rhan lawn yn ein hymgyrch tuag at Gymru carbon sero net. Fel sy'n cael ei wneud yn glir yn ein Cynllun diweddar, *Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2 (2021-2025)* (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf) ac yn asesiad risg y Pwyllgor Newid Hinsawdd (https://www.ukclimaterisk.org/wp-content/uploads/2021/06/CCRA-Evidence-Report-Wales-Summary-Final.pdf), mae'r Argyfwng Hinsawdd (https://www.llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd) a'r risgiau sy'n deillio ohono yn broblemau gwirioneddol ac enbyd. Mae angen gweithredu nawr i dynnu carbon o'n systemau ac i ymateb i'r her o addasu i'r newid yn yr hinsawdd wrth inni weld canlyniadau anochel newid mewn tymheredd byd-eang.<br><br>Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y Senedd lwybr Sero Net 2050 (https://www.llyw.cymru/targedau-newid-hinsawdd-chyllidebau-carbon) mewn deddfwriaeth ac mae *Sero Net Cymru* wedi ailgadarnhau'r uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon sero net ar y cyd erbyn 2030. Mewn ymateb, disgwylir i'r corff chwarae ei rôl lawn drwy fynnu newidiadau i'w arferion a'i ymddygiadau busnes i greu gostyngiad teg a pharhaus yn ei ddefnydd o garbon, gan arwain at sefyllfa sero net. Wrth wneud hynny, disgwylir i'r corff wneud y canlynol:<br><br>Sicrhau bod y newid yn yr hinsawdd wrth galon yr holl benderfyniadau mae'n eu gwneud, boed fawr neu fach, i sicrhau ein bod yn lleihau allyriadau carbon ym mhob polisi, gweithrediad a maes dylanwad, ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried ac yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd a welwn heddiw ac yn y dyfodol. |
| Defnyddio *Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru* (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-07/trywydd-ar-gyfer-datgarboneiddio-ar-draws-sector-cyhoeddus-cymru.pdf) i ddatblygu cynllun ac adrodd ar ei gamau gweithredu i leihau allyriadau a sicrhau gweithrediadau carbon niwtral erbyn 2030. Gall hyn fod ar ffurf adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn cynllun gweithredu cyhoeddedig neu ddogfen ar wahân. |
| Dilyn canllaw adrodd ar sero net y sector cyhoeddus (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-05/canllaw-sector-cyhoeddus-cymru-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net.pdf) i adrodd amcangyfrif o linell sylfaen allyriadau (yn flynyddol i Lywodraeth Cymru), i nodi ffynonellau blaenoriaeth ac i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r uchelgais darged ar y cyd o sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.<br><br>Dangos y camau mae'n eu cymryd i gynllunio ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Dylid gwreiddio ystyriaethau risg hinsawdd mewn trefniadau |

llywodraethu, polisïau a phenderfyniadau, gan ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael ar risg hinsawdd a chynllunio gwydnwch.

Mabwysiadu arferion ac ymddygiadau a fydd yn gosod y safon, yn gosod esiampl ac yn galluogi newid yn gadarnhaol er mwyn sicrhau cymdeithas carbon sero net yng Nghymru. Mae hyn i gydnabod sefyllfa unigryw'r sector cyhoeddus i ddylanwadu ar allyriadau yn ehangach o lawer na'i allyriadau uniongyrchol ei hun, sy'n gymharol fach ond yn bwysig, mewn meysydd fel gwasanaethau, trafnidiaeth, ynni a defnydd tir.

**Cyhoeddi Cynlluniau**

7.8 Dylai'r Cwmni sicrhau bod y cynllun busnes ar gael i'r cyhoedd.

**Cynllunio'r Gyllideb**

7.9 Gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n rheoli trefniadau cynllunio cyllidebau Llywodraeth Cymru.

7.10 Rhaid i'r Cwmni gydweithio â'r tîm partneriaeth drwy roi bob cymorth a'r holl wybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi allu bwrw ymlaen â'i phenderfyniadau o ran cynllunio cyllidebau.

7.11 Bydd y Gweinidog yn cadarnhau'r cyllidebau ar gyfer adnoddau cyfalaf a refeniw net a faint o gyllid cymorth grant (arian parod) a gaiff y Cwmni yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o'r dyraniad cyllideb adnoddau net, bydd y Gweinidog hefyd yn cadarnhau faint o incwm y gall y Cwmni ei gadw i ariannu gweithgarwch yn y flwyddyn ariannol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd cyn pen un mis ar yr hwyraf ar ôl i'r Senedd gytuno ar y gyllideb derfynol. Rhaid i'r Senedd awdurdodi unrhyw gyllid ar gyfer y flwyddyn dan sylw yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol.

7.12 Pan fo modd, bydd y Gweinidog hefyd yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd dilynol fel sail ar gyfer cynllunio cyllidebau. Fodd bynnag, mae lefelau cyllidebau dangosol yn gallu gostwng neu gynyddu yn dibynnu ar flaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios gweinidogol, amrywiadau yn y gyllideb a/neu bryderon ynghylch effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd y Cwmni ac efallai y bydd yn ofynnol i'r Cwmni fodelu dewisiadau gwahanol ar gyfer gweithgareddau, yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

7.13 Wrth bennu cyllidebau cyfalaf ac adnoddau a'r gofynion o ran cymorth grant (arian parod) (os yw hyn yn berthnasol), ystyrir faint o gronfeydd wrth gefn (os o gwbl) sydd gan y Cwmni a'r incwm a ddisgwylir o ffynonellau eraill.

## 8. Rheoli Perfformiad

### Gofynion Adrodd

8.1 Rhaid i'r Cwmni weithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu sy'n ei alluogi i adolygu ei berfformiad ariannol mewn modd amserol ac effeithiol yn erbyn ei amcanion, ac i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau sy'n ei gwneud hi'n fwy neu'n llai anodd cyflawni amcanion. Bydd y cwmni'n rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau sy'n gwneud y gwaith o gyflawni'r amcanion yn fwy neu'n llai anodd.

8.2 Yn unol â'r gofynion adrodd sydd wedi'u rhestru yn y trefniadau goruchwylio sydd i'w cytuno rhwng y Cwmni a'r tîm partneriaeth, mae'n rhaid rhannu dogfennau sicrwydd allweddol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), manylion am wir wariant a'r gwariant a ragwelir, a mathau eraill o wybodaeth monitro y cytunwyd arnynt gyda'r tîm partneriaeth ar adegau cytunedig er mwyn dangos bod targedau a cherrig milltir yn cael eu cyflawni a bod DPA o fewn lefelau derbyniol.

8.3 Hefyd, bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â'r Gweinidog o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod cynnydd.

8.4 Mae'n ddyletswydd ar y tîm partneriaeth i gynnal asesiadau cyfnodol o'r sicrwydd risg sydd ar gael iddynt a gall newid lefel yr oruchwyliaeth yn unol â hynny.

### Adrodd am Eithriadau

8.5 Rhaid i'r Cwmni roi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y daw'n amlwg:

- Bod y gwariant ar adnoddau am y flwyddyn lawn yn debygol o fod yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd mewn unrhyw un o'r cyfansymiau rheoli cyllideb; neu
- Ei fod yn debygol o danwario mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 10 y cant o gyfanswm rheoli ei gyllideb incwm.

8.6 Bydd hefyd yn darparu:

- Adroddiad blynyddol o golledion wedi'u dileu a thaliadau arbennig a wnaed neu a gafodd sêl bendith yn ystod y deuddeg mis blaenorol.
- Adroddiad blynyddol yn amlinellu pob achos o dwyll a dwyn sydd wedi dod i'w ran.

### Is-gwmnïau a Mentrau ar y Cyd

8.7 Ni chaiff y Cwmni sefydlu is-gwmnïau na mentrau ar y cyd sy'n golygu sefydlu cyfryngau at ddibenion arbennig – fel cwmnïau, partneriaethau neu unrhyw strwythur arall sydd â hunaniaeth ac atebolrwydd cyfreithiol – heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm partneriaeth.

8.8 Bydd unrhyw is-gwmni neu fenter ar y cyd sy’n cael ei rheoli gan y Cwmni neu sydd ym mherchnogaeth y Cwmni yn cael ei chyfuno â’r Cwmni fel y bo’n ofynnol gan safonau cyfrifyddu ac, oni chytunir fel arall gan y tîm partneriaeth, a bydd yn ddarostyngedig i’r rheolaethau a’r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ac i unrhyw ddarpariaethau pellach o’r fath a nodir mewn canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol.

8.9 Mae EID Cymru cyf yn is-gwmni i HCC. Mae strwythurau llywodraethu ar wahân yn eu lle ar ei gyfer.

## 9. Cyllidebau Adnoddau Cyfalaf a Refeniw

### Gwariant

9.1 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y Mesur neu ddeddfwriaeth berthnasol arall, cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru, neu gan y ddogfen hon, caiff y Cwmni, cyn gynted ag y bydd ei gyllideb wedi'i chymeradwyo gan y Gweinidog, wario ar y rhaglen a gymeradwywyd yn ei gyllideb flynyddol heb gyfeirio ymhellach at y tîm partneriaeth, yn amodol ar yr amodau canlynol:

- Bydd y Cwmni'n cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad B a'r terfynau yn Atodiad C. Ni ddylid addasu na thorri'r dirprwyaethau hyn heb gytundeb ysgrifenedig y tîm partneriaeth ymlaen llaw.
- Rhaid i'r Cwmni gael cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn bwrw ymlaen â'r canlynol:

    i. unrhyw gynnig y gellid ei ystyried yn newydd, yn ddadleuol neu'n achosi ôl-effaith;

    ii. unrhyw newid mewn polisi neu ymarfer sydd â goblygiadau ariannol eang;

    iii. unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol; neu unrhyw newid sylweddol yng ngweithrediad neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol sydd wedi'i gymeradwyo gan y tîm partneriaeth.

- bydd y Cwmni'n dilyn y fframwaith polisi a nodir yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*" mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau.
- bydd y Cwmni'n gwrthwynebu ceisiadau am daliad ymlaen llaw ac eithrio mewn achosion eithriadol lle credir y gallai fod angen rhywfaint o daliad. Mewn achosion o'r fath, rhaid dilyn yr egwyddorion a nodir yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*".
- bydd y Cwmni'n ymgynghori â'r tîm partneriaeth cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb les eiddo. Rhaid i'r tîm partneriaeth hefyd gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw gynigion i adleoli neu symud i lety newydd.
- rhaid i'r Cwmni fod yn agored ac yn dryloyw yn ei agwedd at roddion a meddu ar bolisïau clir ynghylch datgelu gwybodaeth am roi unrhyw roddion a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer gwneud hynny.

9.2 Rhaid i'r Cwmni gofnodi a monitro gwariant yn erbyn cyllidebau adnoddau cyfalaf a refeniw yn unol â [Chanllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys EF] (neu ei olynydd). Y rhain yw terfynau gwariant net y caiff y Cwmni wario yn eu herbyn ym mhob blwyddyn ariannol – gan gynnwys unrhyw ddefnydd o'r cronfeydd wrth gefn y darparwyd ar ei gyfer yn y gyllideb – a rhaid cadw atynt. Ni chaniateir ymrwymo i wariant net sydd y tu hwnt i'r terfynau hyn tan neu oni bai y bydd y tîm partneriaeth wedi cytuno'n ysgrifenedig i gyllideb ddiwygiedig.

9.3 Ni chaiff y Cwmni amrywio'r gwariant a bennwyd ar gyfer elfennau gwahanol y cyllidebau adnoddau cyfalaf a refeniw. Rhaid gofyn am gymeradwyaeth yn

ysgrifenedig ac ymlaen llaw os yw'r Cwmni yn dymuno gwario mwy mewn un categori a llai mewn categori arall.

9.4 Mae'r cyllidebau adnoddau cyfalaf a refeniw yn cwmpasu holl incwm a gwariant y Cwmni, gan gynnwys grantiau wedi'u clustnodi sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru ac incwm a gafwyd o ffynonellau eraill.

9.5 Mae'r Cwmni wedi'i ddynodi mewn Gorchymyn o dan adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn golygu y bydd y cyllidebau adnoddau net, y terfyn incwm a gedwir, a'r cymorth grant (arian parod) (os yw'n berthnasol) a bennir ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn destun pleidlais fel rhan o Gynnig Cyllidebol y Senedd.

**Cyllidebau Adnoddau ac Incwm**

9.6 Caiff yr holl ffrydiau incwm y mae'r Cwmni wedi'u cael eu trin fel cyllid cyhoeddus ac mae gofynion y ddogfen hon yn berthnasol iddyn nhw hefyd ac yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol: -

- Yn unol ag adran 4(2) o'r Mesur, ni chaiff HCC ddefnyddio cyllid a godir drwy ardoll wedi'i thalu gan bersonau mewn perthynas â gweithgareddau yn y sector gwartheg, y sector defaid neu'r sector moch at ddibenion talu am wariant a wynebir neu sydd i'w wynebu mewn perthynas â sector gwahanol.

- Yn unol â'r Cytundeb Dirprwyo, bydd HCC yn defnyddio'r arian a godir gan yr ardoll a gasglwyd gan HCC dim ond mewn cysylltiad â chyflawni'r Cytundeb Dirprwyo.

9.7 Mae'n rhaid i'r Corff, cyn belled ag y bo modd, geisio cael gymaint â phosibl o'i incwm o ffynonellau heblaw'r sector cyhoeddus os yw hyn yn gyson â'i swyddogaethau (ac yn unol â'r cynllun busnes a'r cynllun gweithredol). Gall gadw incwm i ariannu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn hyd y lefel a nodwyd yn y llythyr cyllid a geir, er enghraifft, o enillion yn sgil gwerthu tir ac adeiladau ac asedau eraill, grantiau gan yr UE, grantiau a geir drwy gronfeydd y loteri, unrhyw enillion sy'n deillio o weithgareddau masnachol y Cwmni neu o werthu gwasanaethau i farchnadoedd ehangach. Rhaid ymgymryd â gweithgareddau o'r fath yn unol â'r telerau sydd wedi'u nodi yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"* a'r Ddogfen Fframwaith hon.

9.8 Mae'r terfynau o ran faint o incwm y caiff y Cwmni ei gadw i ariannu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'u nodi yn y llythyr cyllid. Os yw cyfanswm yr incwm yn debygol o fynd y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, dylai'r Cwmni drafod y mater â'r tîm partneriaeth a cheisio cymeradwyaeth Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.

9.9 Mae'n bosibl y bydd cyfyngiad ar ddefnyddio rhai mathau penodol o incwm, megis rhoddion, grantiau ymchwil gan sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau cyhoeddus, neu gymynroddion a roddwyd i'r Cwmni. Dylid rheoli cyllid o'r fath yn unol â thelerau'r rhodd/grant neu'r cymynrodd. Mae'n rhaid eu cynnwys o hyd yn yr incwm y mae'r Cwmni yn adrodd yn ei gylch ac maent yn rhan o'r terfyn cadw

incwm. Pan fyddant yn cael eu defnyddio, bydd angen darpariaeth yn y gyllideb adnoddau o hyd ar gyfer unrhyw wariant cysylltiedig ychwanegol.

**Cael Benthyg, Rhoi Benthyg, Gwarantau a Buddsoddiadau**

9.10 Ni chaiff y Cwmni, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru, gael benthyg (gan gynnwys cyfleusterau cael benthyg dros dro ar ffurf cyfleuster gorddrafft wedi'i drefnu ymlaen llaw i bontio unrhyw fylchau rhwng trefniadau cael benthyg tymor hir); rhoi benthyg; codi unrhyw ased neu ernes; rhoi unrhyw warant neu indemniad; llythyrau o gysur; neu godi unrhyw rwymedigaeth ddigwyddiadol arall yn fwriadol (fel y disgrifir yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*") p'un ai ar ffurf sy'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio. Rhaid i'r holl warantau ac indemniadau ariannol a roddir gan y Cwmni o dan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 gael eu cynnwys yn ddigonol yn erbyn Adnoddau Gwariant Cyhoeddus y Senedd sydd heb eu tynnu.

9.11 Ni fydd y Cwmni chwaith yn gwneud unrhyw fuddsoddiadau heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm partneriaeth ac eithrio mewn perthynas ag adneuo arian dros ben yn y tymor byr.

**Grantiau, Benthyciadau a Chontractau y mae'r Cwmni yn eu dyfarnu i Endidau eraill**

9.12 Mae'n rhaid i bob grant gydymffurfio â'r telerau sydd wedi'u nodi yn "*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru"* a rhaid iddynt fod yn destun amodau a thelerau priodol sy'n diogelu pwrs y wlad yn ddigonol.

9.13 Er enghraifft, mae'n rhaid i'r amodau a'r telerau ganiatáu talu gam wrth gam, cadarnhau hawliau mynediad i swyddogion Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, sicrhau bod buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru yn cael eu gwarchod yn ddigonol, a chaniatáu adfachu o dan amgylchiadau penodol, ee os bydd arian grant yn cael ei ddefnyddio at ryw ddibenion eraill heblaw'r rhai a gymeradwywyd.

9.14 Mae'n rhaid i'r Cwmni gymryd camau i werthuso statws ariannol yr endid sy'n derbyn y cyllid, er enghraifft drwy adolygu datganiadau ariannol a chydymffurfedd â chyrff adrodd statudol, a chynnal archwiliadau ag asiantaethau gwirio credyd.

9.15 Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r tîm partneriaeth am unrhyw gynlluniau benthyciadau y mae'r Cwmni yn dymuno ymrwymo iddynt. Pan roddir cymeradwyaeth, rhaid rheoli'r benthyca drwy drefniadau tebyg i'r rhai sy'n berthnasol i grantiau.

**Rheoli Cymorthdaliadau yn y DU**

9.16 Os yw'r gweithgaredd sy'n cael cymorth yn fasnachol neu'n economaidd ei natur, bydd angen i'r holl gymorth a ddarperir gydymffurfio â threfn rheoli cymorthdaliadau yn y DU yn ogystal â holl rwymedigaethau perthnasol cytuniadau rhyngwladol. Rhaid i'r Cwmni gymhwyso'r prawf pedair elfen cyn dyfarnu i sicrhau bod cymorth yn cyd-fynd â'r saith egwyddor ar gyfer

cymhorthdal gydnaws ac i sicrhau ymhellach bod cymorthdaliadau'n cael eu rheoli'n briodol, gan gofio bod cymhorthdal yn fantais ym mha bynnag ffurf y bo, sy'n cael ei roi ar sail ddethol i ymgymeriad sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd, gan roi mantais iddo na fyddai'n ei chael fel arall. Y Cwmni sy'n gyfrifol am sicrhau lefelau priodol o ran tryloywder wrth adrodd ynghylch y mathau o gymorth sydd wedi cael eu darparu. Cyfeiriwch at ganllawiau Llywodraeth y DU ar ddyfarnu cymorthdaliadau i gael rhagor o wybodaeth:

https://www.gov.uk/government/publications/uk-subsidy-control-statutory-guidance

9.17 Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio system rhag-hysbysu ar gyfer unrhyw benderfyniadau y mae'r Cwmni'n eu gwneud a allai effeithio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae manylion y penderfyniadau hyn i'w gweld yn **Atodiad B**.

## 10. Cymorth grant a Rheoli Arian Parod

### Cymorth Grant

10.1 Nid oes Cymorth Grant rheolaidd yn daladwy i HCC ar hyn o bryd.

10.2 Bydd y Cwmni'n parhau i ddarparu gwybodaeth reolaidd i Lywodraeth Cymru, o leiaf bob chwarter neu'n amlach os bydd y tîm partneriaeth yn gofyn amdani, drwy ei hawliadau cymorth grant a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro'r canlynol yn foddhaol:

- Rheolaeth y Cwmni o arian parod.
- Y cymorth grant mae'n ei dynnu i lawr.
- Y rhagolygon o ran alldro adnoddau yn ôl penawdau adnoddau.
- Data arall sydd ei angen ar gyfer systemau adrodd Trysorlys EF.

### Balansau Arian Parod

### Yn Ystod y Flwyddyn

10.3 Rhaid cadw'r balansau arian sy'n cronni dros y flwyddyn ariannol ar lefel sylfaenol sy'n gyson â rhedeg y Cwmni yn effeithlon.

### Diwedd y Flwyddyn

10.4 Caiff y Cwmni gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf unrhyw falansau arian heb eu gwario sy'n cyfateb i hyd at 10 y cant o'i incwm blynyddol.

10.5 Mae'r cytundeb dirprwyo (Adran 3.5.2) yn nodi'n glir: "Bydd yr Ardoll sy'n cael ei derbyn a'i chasglu gan HCC o dan gymal 4 ar ran y Gweinidogion yn ystod pob Blwyddyn yn cael ei defnyddio gan HCC dim ond mewn cysylltiad â chyflawni'r Cytundeb hwn fel y nodir yn y Cynllun Busnes hwnnw. Hyd nes y bydd yr Ardoll sy'n cael ei derbyn a'i chasglu yn cael ei defnyddio felly, ystyrir bod cyllid o'r fath wedi'i dderbyn ar ymddiriedolaeth ar gyfer y Gweinidogion. Gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Gweinidogion (na chânt ei wrthod yn afresymol), gall HCC gadw unrhyw gyllid heb ei wario ym mhob Blwyddyn a'i wario yn unol â'r Cynllun Busnes yn y blynyddoedd dilynol."

10.6 Bydd unrhyw gynnig i gario symiau dros 10% drosodd yn cael ei ystyried gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru ac ni fydd yn cael ei wrthod yn afresymol. Bydd y trefniant hwn yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn a'i werthuso ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau ei bod yn briodol bodloni anghenion llif arian HCC gyda'r bwriad o asesu a oes angen diwygio'r trothwy 10%. Bydd y trothwy'n cael ei ystyried wrth bennu ardoll y blynyddoedd dilynol.

**Adolygiad Blynyddol o Oddefiant Arian Wrth Gefn**

10.7 O ystyried yr amrywiol ffactorau sy'n dylanwadu ar lif arian ac anwadalrwydd incwm, bydd mecanwaith adolygu blynyddol yn cael ei sefydlu i asesu'r angen i ddiwygio'r trothwy 10%.

10.8 Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried:

- Tueddiadau incwm o'r ardoll ac amrywiadau o ran cynhyrchiant
- Newidiadau i gyfradd yr ardoll a'u heffaith
- Amseriad adenillion ac ailwladoli'r ardoll
- Rhagolygon llif arian a gofynion cyfalaf gweithio
- Rhagolygon prosiectau sy'n cyd-fynd â'r cynllun busnes

10.9 Gellir cynnig addasiadau i'r trothwy arian wrth gefn ar sail yr asesiadau hyn, gan sicrhau bod y cronfeydd arian wrth gefn yn dal yn briodol i reoli ansicrwydd ariannol heb gronni balansau arian parod gormodol.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar Arian Wrth Gefn**

10.10 Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw awydd i gymryd arian wrth gefn yn ôl, oni bai yr ystyrir eu bod yn ormodol, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod balansau arian parod yn cael eu rheoli o fewn fframwaith realistig.

10.11 Felly, mae er budd y Cwmni a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd i gynnal polisi arian wrth gefn darbodus ond hyblyg sy'n caniatáu ar gyfer gwydnwch ariannol gan osgoi cronni gormod o arian dros ben ar yr un pryd.

**Gofynion Rheoli Llif Arian**

10.12 Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd gweithredol a pharhad gweithgareddau a gynlluniwyd, mae'n hanfodol cynnal arian dros ben digonol i reoli oedi wrth dderbyn incwm ardoll ac ansicrwydd o ran cynhyrchiant da byw.

10.13 Yn yr achos eithafol ac annhebygol o ragolwg o ddiffyg ariannol tymor byr, ac er mwyn osgoi defnyddio cyfleusterau gorddrafft masnachol, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cynigion gan y Cwmni i sicrhau bod mecanwaith priodol ar waith ymlaen llaw i ganiatáu i gymorth gael ei ddarparu drwy drosglwyddo arian tymor byr.

**Llog a Enillir ar Falansau Banc ac Arian Parod**

10.14 Dylid datgan yr holl log y mae'r Cwmni wedi'i ennill ar ei falansau banc ac arian parod yn flynyddol a'i ildio i Drysorlys EF drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 11. Darbodaeth, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

### Sylfaen Dystiolaeth

11.1 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, mae'n rhaid i'r Cwmni sefydlu systemau priodol, a gofalu bod y gallu ganddo, i sicrhau bod ei bolisïau a'i raglenni yn seiliedig ar dystiolaeth o safbwynt eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso.

11.2 Bydd y Cwmni'n adolygu ei wasanaethau a'i weithgareddau'n rheolaidd.

11.3 Rhaid i'r Cwmni hefyd sicrhau bod ei ddull o gynnal arfarniadau a gwerthusiadau yn gwbl gyson â'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau.

### Adolygiadau Teilwredig

11.4 Bydd y tîm partneriaeth a'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn ystyried yr angen i gynnal Adolygiad Teilwredig o'r Cwmni, a fydd yn seiliedig ar y fframwaith risg ac yn gymesur â maint y sefydliad. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw i'r Cwmni bod adolygiad yn cael ei gynnal. Pwrpas yr adolygiad yw rhoi sicrwydd i'r Gweinidog bod y Cwmni'n dal yn addas i'r diben. Bydd yr adolygiad yn ystyried cryfderau a gwendidau'r Cwmni a'i allu o ran cyflawni'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan gynnwys gweld beth yw'r posibiliadau o ran arbedion effeithlonrwydd, a lle bo hynny'n briodol, ei allu i gyfrannu at dwf economaidd. Bydd hefyd yn ystyried y trefniadau rheoli a llywodraethu sydd ar waith i sicrhau bod y cwmni a Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu da cydnabyddedig.

Cymeradwywyd telerau'r Ddogfen Fframwaith hon gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 2 Mehefin 2025.

Llofnod ………………………………………………… Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Dyddiad…30/07/2025……………………………………….

Llofnod ………………………………………………… Prif Weithredwr [neu swyddog enwebedig arall ar ran Hybu Cig Cymru

Dyddiad …30/07/2025…………………………………….

## Atodiad A – Model Partneriaeth

### Swyddogaeth Partneriaeth wedi'i nodi yn y Ddogfen Fframwaith Enghreifftiol

- Rhoi cyngor i Weinidogion perthnasol Cymru a darparu briff i bwyllgorau perthnasol y Senedd ar faterion sy'n ymwneud â'r corff.

- derbyn a gweithredu ar wybodaeth a ddarperir gan y corff o dan y ddogfen fframwaith.

- gwirio hawliadau am gymorth grant ac, os yw'n fodlon, awdurdodi talu'r cymorth hwnnw;

- cyfleu polisi Llywodraeth Cymru i'r corff a rhoi cyngor ar ddehongli polisi.

- rhoi cyngor i Weinidogion ar dargedau a dangosyddion perfformiad sy'n glir, yn berthnasol ac yn heriol.

- monitro ac adolygu perfformiad y corff yn erbyn targedau, gan adrodd i Weinidogion a Phwyllgorau'r Senedd fel y bo'n briodol.

- rhoi cyngor i Weinidogion ar flaenoriaethau gwariant a lefelau priodol o gymorth grant.

- monitro sefyllfa ariannol a pherfformiad cyrff yn erbyn cynlluniau drwy gyfarfodydd rheolaidd â chyrff a datganiadau ganddynt; ac adrodd yn ôl i Weinidogion a Phwyllgorau priodol y Senedd.

- cyhoeddi canllawiau i gyrff.

### Hanfodion Partneriaeth Effeithiol

Nodir yr egwyddorion sy'n diffinio'r berthynas waith rhwng tîm partneriaeth a'i gorff hyd braich yn y cyflwyniad i'r Ddogfen Fframwaith hon.
Dyma nodau partneriaeth:

- Meithrin perthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff hyd braich sy'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, a chyfathrebu agored a gonest.

- Sicrhau bod nodau ac amcanion strategol corff hyd braich yn adlewyrchu ac yn hybu amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru, a hefyd y nodau a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [a Bil/Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023].

- Darparu'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen neu eu heisiau ar y corff hyd braich i gyflawni ei amcanion.

- Hybu safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol yn y sefydliad i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

- Mae swyddogaethau partneriaeth sy'n sail i'r prif nodau hyn wedi'u nodi yn y Ddogfen Fframwaith hon, sy'n diffinio'r berthynas rhwng y tîm partneriaeth a'r corff y mae'n gyfrifol amdano. Mae'r swyddogaethau wedi'u rhestru yn Atodiad A.

- Mae angen i dimau partneriaeth daro cydbwysedd rhwng rheolaeth a chaniatáu i gyrff weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd, fel yr oedd y bwriad wrth sefydlu'r corff fel sefydliad hyd braich. Mae angen iddynt sicrhau bod y berthynas yn un effeithiol, lle mae pob partner yn galluogi ac yn helpu'r llall i gyflawni amcanion Gweinidogol. Hefyd mae angen i dimau a chyrff partneriaeth wneud yn siŵr eu bod yn rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau mewn ffordd berthnasol ac amserol, ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n fwy effeithiol.

- Mae'r paragraffau canlynol yn ceisio crynhoi'r nodweddion pwysicaf sy'n helpu i sicrhau y gellir cyflawni rôl y bartneriaeth mor effeithiol â phosibl.

- **Dealltwriaeth glir o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol y mae cyrff yn gweithredu ynddo:** Gwybodaeth dda am sut mae'r broses o gynllunio gweithredol a busnes a phennu cylch gwaith blynyddol yn gweithio ac yn cysylltu â nodau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru (sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Rhaglen Lywodraethu); a chynllunio grwpiau/is-adrannau a changhennau. Sicrhau bod y corff yn deall y broses fonitro a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

- **O'r fframwaith atebolrwydd ariannol y mae Llywodraeth Cymru a'r corff yn gweithredu ynddo:** Gwybodaeth glir am y rolau a'r rhwymedigaethau perthnasol a nodir yn y Ddogfen Fframwaith; perthnasedd a phwysigrwydd y broses archwilio, gan gynnwys llythyrau rheoli ac adroddiadau sicrwydd ychwanegol; sensitifrwydd argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a'u gweithrediad.

- **O rôl a strwythur gweithredol y corff:** Ynghyd â gwerthfawrogiad o'r problemau y mae'n eu hwynebu neu'n credu ei fod yn eu hwynebu a rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir rhwng y tîm partneriaeth a'r corff.

**Asesu Risg**

**Asesiad clir a pharhaus o'r risgiau sy'n gysylltiedig â pherthynas y bartneriaeth, a strategaeth ar gyfer delio â nhw:** Er enghraifft, risgiau penodol neu gyffredinol sy'n deillio o natur rôl y corff (fel *gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol gyrff*). Hefyd, risgiau penodol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol a nodir mewn llythyrau rheoli; patrwm o fethiant i gyrraedd targedau strategol; neu "fannau dall" amlwg o ran cyfathrebu, a allai olygu bod yn rhaid i'r tîm partneriaeth gymryd rôl fwy 'ymarferol' wrth oruchwylio'r corff.

**Cyfathrebu Effeithiol**

- **Strwythur clir ar gyfer cyfathrebu ffurfiol:** O ran data sydd o fudd i bawb a chynllunio gweithredol a busnes rheolaidd, a'r trefniadau adrodd a monitro ffurfiol sy'n deillio o'r rhain. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau'r tîm partneriaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus neu'r Cyfarwyddwr

Cyffredinol, fel y bo'n briodol, i adolygu perfformiad a thrafod materion trawsbynciol neu faterion sy'n codi.

- **Diwylliant o gyfathrebu anffurfiol rheolaidd, heb fod yn ymwthiol:** Mae hyn yn bwysig o ran helpu i fagu hyder ac ymddiriedaeth, sydd yn ei dro yn gallu arwain at fod natur agored a pharodrwydd i rannu a datrys problemau'n gynnar. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau'r tîm partneriaeth neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn ogystal â deialog rhwng swyddogion. Dylid ystyried digwyddiadau rhannu gwybodaeth/rhwydweithio blynyddol, gan roi cyfleoedd i gyd-weithwyr polisi a chyflawni gwrdd, rhannu'r arferion gorau a datblygu perthynas waith.

- **Ceir cyfranogiad da ar lefel uwch:** I sicrhau cyfeiriad strategol da, ac i adlewyrchu ymrwymiad i'r berthynas.

- **Cyfathrebu mewnol effeithiol:** Gwybod gyda phwy y dylid cysylltu yn Llywodraeth Cymru i gael cyngor ar faterion fel cyllidebu; priodoldeb; caffael a materion personél: a pharodrwydd i wneud hynny.

- **Datblygu polisïau mewn ffordd gynhwysol:** Dylid sicrhau lefel briodol o gyfranogiad mewn unrhyw waith datblygu polisi ar gyfer y corff, gyda deialog a chyfathrebu rheolaidd yn parhau drwy gydol y broses.

**Sefydlu Presenoldeb Awdurdodol:**

Dylai'r tîm partneriaeth weithredu fel y prif bwynt mynediad i Lywodraeth Cymru ar gyfer y corff a gweithredu fel ffynhonnell cyngor awdurdodol (hyd yn oed os ceir y cyngor hwnnw o rywle arall), gan gydnabod rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus o ran sicrhau bod cyrff ar draws Llywodraeth Cymru yn cael eu trin yn deg a'i chyfrifoldebau penodol am faterion sy'n ymwneud â chyflog, penodiadau pensiwn a thaliadau cydnabyddiaeth. Mae parodrwydd i gymryd perchnogaeth dros gyngor o'r fath wrth gyfathrebu â'r corff yn hanfodol. Deall y cyfathrebiadau rydych yn eu trosglwyddo a bod yn barod i roi cyngor.

- **Herio a chraffu:** Egluro bod cwestiynu'r corff mewn ffordd gadarn ac wedi'i strwythuro'n briodol yn rhan hanfodol o'r rôl er mwyn cefnogi atebolrwydd cyhoeddus, ond dylai hyn fod ar lefel strategol yn hytrach nag ar lefel weithredol, er mwyn osgoi micro-reoli. Dadansoddi cynigion a gwneud argymhellion ar sail gwybodaeth i drydydd partïon (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Swyddogion Cyfrifyddu a Gweinidogion).

- **Cyswllt â Gweinidogion:** Dod i gytundeb gyda Gweinidogion ynghylch yr hyn y mae'r corff i fod i'w gyflawni, ac yna eirioli ei sefyllfa yn gadarn ac yn ddidwyll.

**Sgiliau**

- **Hyfforddiant effeithiol:** Hyfforddiant cynefino dwyochrog effeithiol a hyfforddiant partneriaeth effeithiol penodol (ar y cyd â staff y corff lle bo'n bosibl). Ystyried pa mor briodol yw hyfforddiant desg; cyfnewid swyddi yn y tymor byr er mwyn

ymaddasu; secondiadau neu gysgodi yn y gwaith; er mwyn helpu i ddeall rolau a heriau.

**Atodiad B – Dirprwyaethau**

**Trefniadau Galw i Mewn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus**

**Trefniadau Cymeradwyo, Rhag-hysbysu a Hysbysu.**

1. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi cytuno ar drefniadau pontio gyda'r Prif Weinidog i roi sicrwydd i'r Prif Weinidog ac i'r Ysgrifennydd Parhaol nad yw dileu'r gweithdrefnau galw i mewn gyda chyrff hyd braich yn arwain at risg i Lywodraeth Cymru nac i'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn effeithiol. Trefniadau yw'r rhain er mwyn darparu data llinell sylfaen i Lywodraeth Cymru y gall eu defnyddio i asesu yng nghyswllt faint o faterion y mae cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo, ac i gael gweld beth yw dull gweithredu pob corff o ran y trefniadau newydd.

2. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn rhoi trefniadau ***Cymeradwyo, Rhag-hysbysu a Hysbysu*** ar waith mewn perthynas â phenderfyniadau a fu'n destun trefniadau galw i mewn yn y gorffennol. Nod y trefniadau yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth gyson ynghylch sut mae'r broses newydd yn gweithio yn ymarferol, yn lle parhau â mecanwaith sy'n golygu bod yn rhaid cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

3. Rhaid cyfeirio pob cais am gymeradwyaeth, neu gyhoeddi rhag-hysbysiadau neu hysbysiadau, at y tîm partneriaeth yn y lle cyntaf.

4. Bydd Swyddogion Cyfrifyddu mewn Cyrff Cyhoeddus yn atebol am y penderfyniadau y mae'n ofynnol rhoi gwybod amdanynt. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion y mae angen eu hysbysu ymlaen llaw, fel y nodir yn Nhabl B; er mai cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw gwneud y penderfyniad yn y pen draw. Os bydd y Cwmni yn penderfynu peidio â dilyn cyngor Llywodraeth Cymru, bydd y Tîm Partneriaeth yn argymell wrth y Gweinidog y dylid trafod hynny â'r Cadeirydd - gyda'r Gweinidog yn cadw'r hawl i wrthod penderfyniad a wnaed ar ôl i Gwmni anwybyddu cyngor Llywodraeth Cymru, a hynny heb reswm y gellir ei gyfiawnhau.

5. Yr eithriadau i hyn fydd y penderfyniadau a nodir yn Nhabl A, sef y rhai y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

***Tabl A Cymeradwyo***

| **Penderfyniad** | **Cymeradwyo** |
|---|---|
| Penodi Prif Weithredwr | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a Gweinidog |
| Cyfnod Cynllun Busnes y Llywodraeth | Gweinidog |
| Ar gyfer cwmnïau yn y categori sefydliadau Llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifyddu:<br>a) Arian parod wedi'i drosglwyddo ar ddiwedd y flwyddyn sy'n fwy na 10% o gyfanswm yr incwm/arian parod<br>b) Sefydlu is-gwmnïau/mentrau ar y cyd newydd<br>c) Unrhyw fenthyciadau, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus.<br>d) Derbyn incwm i ariannu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y llythyr cyllido. | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru |
| Unrhyw benderfyniad sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth fel un y mae angen cael caniatâd Gweinidogion Cymru ar ei gyfer e.e. o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, rhaid i gynllun corfforaethol blynyddol gael ei gymeradwyo gan Weinidog. | Gweinidog |
| Trefniadau diswyddo sy'n seiliedig ar Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (cyrff sy'n gweithredu cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil) | Pennaeth Cyflogau a Thaliadau Cydnabyddiaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor gan y Gweinidog fel y bo'n briodol. |

**Tabl B – Trefniadau Rhag-hysbysu**

Dylai Prif Swyddogion Gweithredol hysbysu eu Tîm Partneriaeth am unrhyw benderfyniadau arfaethedig sy'n dod o fewn y categorïau canlynol, pan fônt yn digwydd, er mwyn i Lywodraeth Cymru gael y cyfle i roi'r cyngor priodol. Cyn belled ag y bo modd, bydd y TÎM Partneriaeth yn anelu at ymateb o fewn pythefnos. Os bydd Corff yn penderfynu peidio â dilyn cyngor Llywodraeth Cymru, gall y Tîm Partneriaeth uwchgyfeirio'r mater at y Gweinidog, sy'n cadw'r hawl i wrthod derbyn penderfyniad a gymerir gan Gorff Cyhoeddus, os yw hwnnw'n penderfyniad y gwelir, ar ôl ei drafod, na ellir ei gyfiawnhau.

Dylai'r penderfyniadau hyn fod yn destun trafodaeth archwilio diwedd chwarter mewn cyfarfodydd monitro chwarterol.

| Penderfyniad | Camau Rhaghysbysu | Cyngor Pellach |
|---|---|---|
| Cynigion anarferol, dadleuol, neu a allai gael effeithiau pellgyrhaeddol na ddymunir eu cael, yn ôl Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys y canlynol, er nad yw'r rhestr yn gyflawn:<br>• Cynigion nad ydynt yn rhai safonol ar gyfer y sector<br>• Cynigion sy'n wleidyddol sensitif a/neu sy'n debygol o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau<br>• Cynigion a fyddai'n gallu cael canlyniadau annymunol i'r sefydliad a/neu i'r sector cyhoeddus yn ehangach | Y Tîm Partneriaeth, ar y cyd â'r timau polisi priodol, i baratoi cyngor i'w drafod gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor ysgrifenedig gan y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Llywodraethu Corfforaethol, ac unrhyw Gorff arall sydd ag arbenigedd yn y maes. | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Unrhyw gamau gweithredu y mae'r Bwrdd yn ystyried y byddent yn mynd yn groes i'r egwyddorion ar gyfer rheoleidd-dra, priodoldeb, arferion gweinyddu gochelgar a darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, y mae'r Prif | Y Tîm Partneriaeth i baratoi cyngor ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol | Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol |

| Penderfyniad | Camau Rhaghysbysu | Cyngor Pellach |
|---|---|---|
| Swyddog Gweithredol wedi cynghori yn eu herbyn. | | |
| Newidiadau i bolisi neu arferion sydd â goblygiadau ariannol eang | Y Tîm Partneriaeth i baratoi cyngor ar gyfer y Pennaeth Rheoli Cyllidebau, gan anfon copi i'r Uned Cyrff Cyhoeddus | Y Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer staff, ynghyd â'u telerau ac amodau. | Y Tîm Partneriaeth i gyflwyno cynigion i'r Pennaeth Cyflogau a Thaliadau Cydnabyddiaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, o ran:<br>• newidiadau sydd y tu allan i gwmpas egwyddorion cyflogau sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru;<br>• newidiadau i'r strwythur sefydliadol sy'n debygol o arwain at ddiswyddo staff | Y Gweinidog, fel y bo'n briodol |
| Unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol, ee pwysau posibl ar gyllidebau neu danwario | Y Tîm Partneriaeth i ystyried | Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol |

### *Trefniadau Hysbysu Eraill*

Yn ystod y cyfnod pontio, dylai'r Prif Swyddogion Gweithredol roi gwybod i Dimau Partneriaeth yn eu cyfarfodydd monitro chwarterol am unrhyw benderfyniadau eraill y maent wedi eu gwneud, neu'n debygol o'u gwneud yn ystod y chwarter nesaf, a fyddai wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

**Atodiad C**

**Crynodeb o'r Gofynion Cymeradwyo a'r Terfynau Dirprwyo**

| Pwnc | Terfyn Dirprwyo |
|---|---|
| | |
| Penodi Prif Weithredwr | **Cymeradwyaeth Gweinidogol** |
| Taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer staff, ynghyd â'u telerau ac amodau | **Mae angen cymeradwyaeth Gweinidogol i ddiwygio'r telerau ac amodau cyffredinol** |
| Trefniadau pensiwn a thalu tâl dileu swydd neu iawndal | **Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth** |
| Cynllun Busnes a Gweithredol | **Cymeradwyaeth Gweinidogol** |
| Is-gwmnïau a mentrau ar y cyd | **Cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol** |
| Trosglwyddiad y tu allan i derfynau penodedig | **Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth** |
| Taliadau newydd, dadleuol neu sy'n achosi ôl-effaith | **Cymeradwyaeth Uned Llywodraethiant Corfforaethol Llywodraeth Cymru** |
| Cael benthyg, rhoi benthyg, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau | **Cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu'r tîm partneriaeth** |
| Prosiectau cyfalaf | **Bwrdd HCC** |
| Prosiectau TG | **Bwrdd HCC** |
| Contractau ymgynghori | **Bwrdd HCC** |
| Gwyriadau tendrau sengl | **Bwrdd HCC hyd at £50,000 a'r**<br>**Tîm Partneriaeth yn uwch na'r terfyn** |
| Rhoddion, lletygarwch, gwobrau ac ati (£250 y tro ar gyfer rhoddion a gwobrau ac £20,000 y tro ar gyfer lletygarwch gyda therfyn cyfunol blynyddol o £100,000) | **Bwrdd HCC hyd y terfynau a roddir a'r Tîm Partneriaeth y tu hwnt i'r terfynau hynny** |
| Nawdd | **Bwrdd HCC** |
| Colledion a thaliadau arbennig | **Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth** |
| Cadw derbyniadau uwchlaw'r terfyn a nodir yn y llythyr cyllido | **Cymeradwyaeth y tîm partneriaeth** |
| Cario drosodd | **Diwedd y flwyddyn – 10% o gyfanswm yr incwm. Uwchben y** |

| | |
|---|---|
| | **ffigur hwn, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru** |
| | |

## Atodiad D: Memorandwm ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu

## MEMORANDWM AR GYFER SWYDDOG CYFRIFYDDU HYBU CIG CYMRU

## CYFRIFOLDEBAU SWYDDOG CYFRIFYDDU CWMNI SYDD YM MHERCHNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU

### Cyflwyniad

1. Mae'r Memorandwm hwn yn egluro cyfrifoldebau uwch swyddog (y Prif Weithredwr neu swyddog cyfatebol fel arfer) corff sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru (y cwmni) sydd wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cwmni hwnnw. Mae ei gynnwys hefyd yn berthnasol i uwch swyddogion cyrff cyhoeddus lle nad oes Swyddog Cyfrifyddu dynodedig.

2. Dynodir Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y cwmnïau hynny sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ac sy'n cael eu hariannu gan grant mawr neu gymorth grant, neu pan fo cyfrifon y cwmni i gael eu cyflwyno gerbron Senedd Cymru. Os yw er budd atebolrwydd cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dynodi Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cwmni sy'n cael ei brif gyllid o ffynonellau eraill. Mae'n egwyddor bwysig bod Swyddogion Cyfrifyddu yn atebol i Senedd y DU ac i Senedd Cymru am yr holl adnoddau sydd o dan eu rheolaeth, ni waeth o ble y daw'r cyllid.

3. Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru, a ddynodwyd yn unol ag adran 129 (6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), fel y'i diwygiwyd, yn gyfrifol am sicrhau bod Swyddogion Cyfrifyddu priodol yn cael eu penodi ar gyfer cyrff cyhoeddus a chwmnïau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn ei dro, wedi dirprwyo i'w Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, a ddynodwyd o dan adran 133 (2) o Ddeddf 2006, y cyfrifoldeb dros ddynodi uwch swyddogion cwmnïau y mae eu Grwpiau nhw yn eu goruchwylio yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol.

### Cyfrifoldebau Cyffredinol y Swyddog Cyfrifyddu

4. Mae eich dynodi yn Swyddog Cyfrifyddu yn adlewyrchu'r ffaith eich bod, o dan y bwrdd (p'un ai eich bod yn aelod o'r bwrdd ai peidio), yn gyfrifol am drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y cwmni, ac am ei weithdrefnau ariannol a'i weithdrefnau yng nghyswllt materion eraill.

5. Mae'n rhaid i chi sicrhau safonau uchel o reoli ariannol yn y cwmni cyfan; bod gweithdrefnau a systemau ariannol yn hyrwyddo cynnal busnes mewn modd effeithlon a darbodus a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol drwy'r cwmni cyfan; a bod yr ystyriaethau ariannol hynny, gan gynnwys ymarferoldeb a chynaliadwyedd, yn cael eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau ar gynigion polisi.

### Cyfrifoldebau Penodol y Swyddog Cyfrifyddu

6. Hanfod rôl y Swyddog Cyfrifyddu yw bod yn bersonol gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus rydych chi'n atebol amdano; am gadw cyfrifon priodol; am weinyddu'n ddarbodus a gochelgar; am osgoi gwastraff a gorwariant; ac am sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o'r holl adnoddau.

7. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'n rhaid ichi wneud y canlynol:

   a. llofnodi'r cyfrifon sydd wedi'u haseinio i chi, gan dderbyn cyfrifoldeb personol dros sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n briodol fel sydd wedi'i ragnodi mewn deddfwriaeth, y cyfarwyddyd cyfrifyddu a chanllawiau perthnasol.

   b. sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â gofynion y Ddogfen Fframwaith, bod gweithdrefnau ariannol priodol yn cael eu dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu'n cael eu cadw ar ffurf sy'n addas i ofynion y rheolwyr, ac ar y ffurf a ragnodir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig o dan y Deddfau Cwmnïau neu ddeddfwriaeth ac arferion cyfrifyddu perthnasol eraill.

   c. sicrhau bod yr adnoddau rydych chi'n gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli'n briodol ac yn dda (gweler paragraff 9 isod) ac yn cael eu diogelu, gan sicrhau bod cyllid sydd yn nwylo unrhyw swyddog yn cael ei wirio drwy drefniant annibynnol ac effeithiol.

   d. sicrhau bod yr asedau rydych chi'n gyfrifol amdanynt, ee tir, adeiladau neu eiddo arall, gan gynnwys storfeydd a chyfarpar, yn cael eu rheoli a'u diogelu â gofal tebyg, gan drefnu gwiriadau fel y bo'n briodol.

   e. wrth ystyried cynigion polisi sy'n ymwneud â gwariant neu incwm rydych yn gyfrifol amdano, sicrhau bod pob ystyriaeth ariannol berthnasol, gan gynnwys fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, yn cael ei hystyried; bod gwerth am arian y cynnig yn cael ei asesu yn unol â'r egwyddorion yng nghanllawiau'r Trysorlys "*The Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government*"; y rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw faterion cysylltiedig â phriodoldeb a rheoleidd-dra; ac y defnyddir technegau rheoli prosiectau a rhaglenni o ansawdd da fel y bo'n briodol i dracio cynnydd a, lle bo angen, addasu'r cynnydd. Os oes angen, dylid dwyn ystyriaethau o'r fath i sylw'r Bwrdd.

   f. sicrhau bod risgiau (o ran cyflawni amcanion busnes, rheoleidd-dra a phriodoldeb neu werth am arian) yn cael eu canfod, bod eu pwysigrwydd yn cael ei asesu, a bod systemau priodol ar waith i'w rheoli.

   g. sicrhau eich bod, wrth reoli cyfleoedd a risgiau, yn taro'r cydbwysedd iawn sy'n gymesur â busnes eich sefydliad a'r risg rydych yn barod i'w chymryd.

   h. sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i wrthsefyll twyll ac i sicrhau y cydymffurfir â'r gweithdrefnau i ddelio ag achosion amheus.

   i. llofnodi'r Datganiad Llywodraethu.

8. Rhaid i chi sicrhau y cynhelir system gadarn o reolaeth fewnol yn eich sefydliad i ategu'r gwaith o gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion a dylid adolygu

effeithlonrwydd y system yn rheolaidd. Rhaid i chi allu sicrhau Senedd Cymru a'r cyhoedd o'r safonau uchel o uniondeb wrth reoli arian cyhoeddus yn eich sefydliad. Adroddir ar hyn yn eich Datganiad Llywodraethu blynyddol.

9. O ran rheolwyr, ar bob lefel, dylech sicrhau'r canlynol:

   a. bod ganddynt weledigaeth glir o'u hamcanion, a'r modd i asesu a, lle bynnag y bo'n bosibl, y modd i fesur allbynnau neu berfformiad mewn perthynas â'r amcanion hynny;

   b. bod cyfrifoldebau clir yn cael eu neilltuo iddynt mewn perthynas â gwneud y defnydd gorau o adnoddau (y rheini a ddefnyddir at eu dibenion nhw yn ogystal ag unrhyw adnoddau a ddarperir i sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r corff), gan gynnwys craffu'n feirniadol ar allbwn a gwerth am arian;

   c. eu bod yn cael yr wybodaeth (yn enwedig o ran costau), yr hyfforddiant a'r mynediad at gyngor arbenigol sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

10. Rhaid ichi sicrhau bod trefniadau dirprwyo yn hyrwyddo rheoli da a bod gennych y staff angenrheidiol sydd â chydbwysedd sgiliau priodol i'ch cefnogi. Dylai'r trefniadau archwilio mewnol gyd-fynd â'r amcanion, y safonau a'r arferion a nodir yn nogfen Trysorlys EF, "Government Internal Audit Standards".

**Gweithio mewn Partneriaeth**

11. Mae cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn gynyddol er mwyn cyflawni eu nodau a'u hamcanion strategol. Dylech sicrhau bod effaith ehangach y gweithgareddau rydych chi'n gyfrifol amdanynt yn cael eu canfod a, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu hystyried. Gall y cwmni gyfrannu at weithgaredd ar y cyd dan arweiniad sefydliad eraill (yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat) wrth fynd ar drywydd ei amcanion.

12. Efallai yr ystyrir y cyfraniad yn briodol hyd yn oed os na fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion ehangach eich sefydliad. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i chi ddangos bod y cyfranogiad yn rhoi gwerth da am arian at ei gilydd a bod dulliau rheoli priodol ar waith at ddibenion diogelu priodoldeb ac er mwyn darparu atebolrwydd priodol.

13. Dylai swyddogion cyfrifyddu ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu gwasanaeth drwy gydweithio. Os byddwch chi a Swyddog Cyfrifyddu arall yn ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd, bydd angen i'r llinellau cyfrifoldeb gael eu cofnodi'n glir er mwyn sicrhau eglurder llwyr ynghylch am beth y mae'r naill a'r llall yn gyfrifol ac yn atebol.

**Rheoleidd-dra a Phriodoldeb Gwariant**

14. Mae gennych gyfrifoldeb penodol dros sicrhau y cydymffurfir â gofynion Senedd y DU a Senedd Cymru, wrth reoli gwariant, yn ogystal â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'n ofyniad sylfaenol mai dim ond i'r graddau ac i'r dibenion a

awdurdodir gan Senedd Cymru y dylid defnyddio cyllid. Rhaid tynnu sylw'r Senedd at golledion neu daliadau arbennig, drwy nodi hynny fel y bo'n briodol mewn perthynas â'r cyfrif perthnasol.

15. Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau y cafwyd cymeradwyaeth benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ym mhob achos lle mae hynny'n ofynnol, gan gynnwys achosion sy'n ymwneud â chyflogau, pensiynau ac amodau gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wariant nad yw wedi'i gynnwys yn unrhyw awdurdodaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r cwmni. Nid yw awdurdod dirprwyedig yn dileu'r rhwymedigaeth i gyflwyno pob cynnig anarferol, dadleuol neu sy'n achosi ôl-effaith i Lywodraeth Cymru. Rydych yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle ar gyfer casglu a dwyn i gyfrif ar ffurf briodol yr holl incwm a derbynebion o unrhyw fath rydych chi'n gyfrifol amdanynt.

**Cyngor i'r Bwrdd**

16. Mae'n rhaid i chi ofalu eich bod yn tynnu sylw'r bwrdd at unrhyw wrthdaro rhwng eu cyfarwyddiadau a'ch dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Ni chewch dderbyn nodau a pholisïau'r bwrdd heb eu harchwilio. Nid oes ffurf benodedig ar gyfer cofrestru gwrthwynebiadau, ond dylech fod yn benodol ynghylch eu natur. Y prawf eithaf yw a fyddech chi'n gallu cyfiawnhau'r gweithgaredd arfaethedig pe gofynnwyd i chi ei amddiffyn yn gyhoeddus.

17. Os bydd y bwrdd, er gwaethaf y cyngor rydych chi wedi'i roi, yn penderfynu parhau i weithredu mewn ffordd rydych chi wedi cynghori yn ei erbyn, dylech ofyn i'r bwrdd am gyfarwyddyd swyddogol i fwrw ymlaen, gan nodi'r posibilrwydd o ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru. Mae Cyfarwyddiadau o'r fath yn brin. Isod ceir enghreifftiau o adegau pan fyddai'n briodol defnyddio'r drefn hon:

- **Rheoleidd-dra** – os yw cynnig y tu allan i bwerau cyfreithiol eich sefydliad, cydsyniad Senedd y DU neu Senedd Cymru, dirprwyaethau Llywodraeth Cymru neu'n anghydnaws â'r cyllidebau gwariant a gytunwyd;

- **Priodoldeb** – pe bai cynnig yn mynd yn groes i ddisgwyliadau neu weithdrefnau rheoli Senedd y DU neu Senedd Cymru;

- **Gwerth am Arian** – pe bai cynnig arall, neu wneud dim, yn rhoi gwerth gwell am arian, er enghraifft: canlyniad rhatach, o ansawdd uwch neu fwy effeithiol;

- **Ymarferoldeb** – os oes amheuaeth wirioneddol a fyddai modd rhoi'r cynnig ar waith yn gywir, yn gynaliadwy neu yn unol â'r amserlen arfaethedig.

18. Pan wneir cyfarwyddyd, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Dilyn cyfarwyddyd y bwrdd yn ddi-oed;

- Copïo'r papurau perthnasol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'ch tîm partneriaeth. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru fel arfer yn dwyn y mater i sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Cyn belled â'ch bod wedi dilyn

y drefn hon, mae'n deg disgwyl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ddeall nad oes dim cyfrifoldeb personol arnoch yn rhinwedd eich swydd fel Swyddog Cyfrifyddu am y trafodyn. Mae'n rhaid i chi drefnu i gyhoeddi'r ffaith bod y cyfarwyddyd yn bodoli yn yr adroddiad a chyfrifon, oni bai bod yn rhaid cadw'r mater yn gyfrinachol;

- Os gofynnir i chi, er enghraifft yn ystod gwrandawiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, esboniwch gam gweithredu'r bwrdd. Mae hyn yn parchu hawl y bwrdd i gael cyngor didwyll ac yn diogelu ansawdd y drafodaeth fewnol.

**Ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin**

19. Mae'n bosibl y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, yn mynd ati i archwilio i ba raddau y mae eich sefydliad wedi bod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, gallwch ddisgwyl cael eich galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor priodol o bryd i'w gilydd, gan amlaf gyda'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu, o bosibl, y Prif Swyddog Cyfrifyddu, i roi tystiolaeth ynghylch yr adroddiadau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn, ac i ateb cwestiynau gan y Pwyllgorau am eich adroddiad a chyfrifon blynyddol.

20. Gallai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ofyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gofnodi tystiolaeth ar ei ran ac adrodd yn ôl ar y dystiolaeth a ddaw i law. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, efallai y bydd swyddogion eraill yn eich cefnogi ac yn ymuno i ddarparu'r dystiolaeth. Wrth roi tystiolaeth, bydd disgwyl ichi ddarparu esboniadau i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw arwyddion o wendid o ran y materion a nodir ym mharagraffau 4-10 uchod, y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu ei sylw atynt neu y maent yn awyddus i'ch holi yn eu cylch.

21. Yn ymarferol, bydd Swyddog Cyfrifyddu fel arfer wedi dirprwyo awdurdod yn eang, ond ni chewch ymwrthod â'ch cyfrifoldeb ar gyfrif hynny. Nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu presennol chwaith, drwy gonfensiwn, yn gwrthod ateb cwestiynau lle cynhaliwyd y digwyddiadau cyn ymgymryd â'r penodiad: efallai y bydd disgwyl i'r Pwyllgorau beidio â rhoi pwysau ar gyfrifoldeb personol deiliad y swydd mewn amgylchiadau o'r fath.

22. Rhoddir pwys mawr ar gywirdeb y dystiolaeth, ac mae'n gyfrifoldeb ar y tystion i sicrhau hyn. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod yn cael eich briffio'n ddigonol ac yn gywir ar faterion sy'n debygol o godi yn y cyfarfod. Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor am gael darparu gwybodaeth nad yw'n hysbys ichi drwy anfon nodyn yn ddiweddarach. Os daw i'r amlwg yn nes ymlaen fod elfennau o'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn anghywir, dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

23. Yn gyffredinol, mae'r rheolau a'r confensiynau sy'n rheoli ymddangosiadau swyddogion gerbron Pwyllgorau Senedd y DU yn berthnasol i'r Pwyllgorau hyn, gan gynnwys y confensiwn cyffredinol nad yw swyddogion yn datgelu'r cyngor a

roddwyd i'r bwrdd. Serch hynny, mewn achos lle rhoddwyd cyfarwyddyd ynghylch mater yn ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra, byddai cyngor y Swyddog Cyfrifyddu, a'r ffaith bod y bwrdd wedi'i wrthod, yn cael ei ddatgelu.

24. Mewn achos lle mae cyngor Swyddog Cyfrifyddu wedi cael ei wrthod yng nghyswllt mater sy'n ymwneud â gwerth am arian neu ymarferoldeb (yn hytrach na rheoleidd-dra neu briodoldeb) bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi egluro i'r Pwyllgor perthnasol y dyfarnwyd yn erbyn y Swyddog Cyfrifyddu. Er hynny, dylech osgoi datgelu'r cyngor a roddwyd neu eich datgysylltu eich hun oddi wrth y penderfyniad. Yn amodol ar gytundeb y bwrdd, pan fo hynny'n briodol, dylech fod yn barod i esbonio penderfyniad o'r fath ac efallai y gelwir arnoch i fodloni'r Pwyllgor fod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol wedi cael eu dwyn i sylw'r bwrdd cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Yna, lle'r Pwyllgor fydd mynd ar drywydd y mater gyda'r bwrdd os mai dyna yw ei ddymuniad.

**Absenoldeb Swyddog Cyfrifyddu**

25 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, dylech sicrhau eich bod ar gael ar gyfer ymgynghoriad ac y bydd uwch swyddog yn y sefydliad ar gael i weithredu ar eich rhan, os oes angen, yn ystod unrhyw gyfnod nad ydych ar gael dros dro oherwydd salwch neu ryw achos arall, neu yn ystod cyfnodau arferol o wyliau.

26 Os yw swydd y Prif Weithredwr (neu swydd gyfatebol) yn wag neu y daw yn amlwg eich bod chi fel y Swyddog Cyfrifyddu wedi'ch analluogi ac nad ydych yn gallu cyflawni'r dyletswyddau hyn, dylid hysbysu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol er mwyn gallu dynodi Swyddog Cyfrifyddu dros dro yn swyddogol hyd nes y bydd y Swyddog Cyfrifyddu yn dod yn ôl neu y penodir Swyddog Cyfrifyddu newydd.

27 Mae'n bosibl y bydd disgwyl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ohirio gwrandawiad os nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu perthnasol ar gael am gyfnod. Os nad ydych chi fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gael neu eich bod yn absennol ac felly ddim yn gallu llofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, gellir cyflwyno copïau heb eu llofnodi tan y dewch yn ôl. Os nad ydych yn gallu llofnodi'r cyfrifon mewn pryd i'w hargraffu, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro eu llofnodi yn lle.

**Atodiad E**

**Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Corfforaethol y Llywodraeth Gyfan**

- Y ddogfen hon.
- Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog at y corff.
- "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru";
- Memorandwm Llywodraeth Cymru "Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu";
- Cyfarwyddyd Cyfrifon y corff.
- Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice.
- "Government Internal Audit Standards" Trysorlys EF;
- "Managing the Risk of Fraud" Trysorlys EF;http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf
- "Executive NDPBs - Annual Reports and Accounts Guidance" Trysorlys EF;
- "Departmental Banking: A Manual for Government Departments" Trysorlys EF (a gyhoeddwyd fel Atodiad 5.7 "Managing Public Money");http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm_annex5.7.pdf
- "Regularity, Propriety and Value for Money" Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Reg_Prop_and_VfM-November04.pdf
- "Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government" Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green_book_complete.pdf
- Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EF; http://www.hm-treasury.gov.uk/d/auditcommitteehandbook140307.pdf
- "Magenta Book – Guidance Notes on Policy Evaluation" Swyddfa'r Cabinet; http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/magenta_book/index.asp http://www.nationalschool.gov.uk/policyhub/docs/profpolicymaking.pdf
- Cod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Cyrff Cyhoeddus;
- "Guidelines for Good Practice in Evaluation" Cymdeithas Werthuso'r DU; http://www.evaluation.org.uk/resources/guidelines.aspx
- "Code of Practice for Official Statistics" Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig a'i brotocolau cysylltiedig; http://www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/code-of-practice/code-of-practice-for-official-statistics.pdf
- "Revitalising Health and Safety" Y Comisiwn Iechyd a Diogelwch/Adran yr Amgylchedd a'r Rhanbarthau; http://www.hse.gov.uk/strategy/
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Llythyrau "Prif Swyddog Gweithredol" sydd eisoes yn bodoli.
- Llythyrau "Annwyl Swyddog Cyfrifyddu" sydd eisoes yn bodoli.
- Llythyrau rheoli gan archwilwyr allanol.
- cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.
- Yr argymhellion hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru, Pwyllgorau eraill Senedd Cymru; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgorau neu awdurdodau eraill Senedd y DU sydd wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru ac sy'n berthnasol i'r corff.
- Yn ogystal, wrth gynnal ei fusnes bydd y corff yn sicrhau, ymysg ei ddyletswyddau eraill:

- Ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw o Safonau'r Gymraeg a osodir ar y corff gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu, lle nad yw corff yn atebol i gydymffurfio â'r Safonau, o ran ei Gynllun Iaith Gymraeg lle mae gan y corff Gynllun Iaith Gymraeg. Lle nad oes Cynllun o'r fath yn bodoli mewn corff, dylai corff gydymffurfio â thelerau Safonau'r Gymraeg a bennir yn yr hysbysiadau cydymffurfio a osodir ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg o bryd i'w gilydd. Gellir gweld copi o'r fersiwn ddiweddaraf ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.
- Bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn modd sy'n gydnaws â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg fel y nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd.
- Ei fod yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun, wedi'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth fel y bo'n ofynnol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- Bod ei swyddogaethau'n cefnogi'r nodau a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

| **Nodau Llesiant** |
|---|
| Cymru lewyrchus |
| Cymru gydnerth |
| Cymru iachach |
| Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| **Pum Ffordd o Weithio** | |
|---|---|
| Hirdymor | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| Atal | Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| Integreiddio | Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| Cydweithio | Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| Cynnwys | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y |

| | |
|---|---|
| | bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

- Ei fod yn dilyn y dull gweithredu o ran bod yn agored a nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad at Wybodaeth.

- Ei fod yn rhoi sylw dyledus i God Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.

- Bod ei brosesau caffael yn cael eu dilyn gan roi sylw dyledus i'r egwyddorion a nodir yng Nghanllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru.

- O ran bod yn agored, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, disgwylir i'r corff gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Rhaid i un cyfarfod y flwyddyn o leiaf fod yn gyfarfod agored. Lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, bydd y corff yn rhyddhau adroddiadau cryno neu'n sicrhau bod cofnodion ei gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd.

O ran iechyd, diogelwch a lles, rhaid i'r corff wneud y canlynol:

- Cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles fel y maent yn berthnasol i'w holl swyddogaethau, prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau.

- Mynnu bod y sefydliadau y mae'n eu hariannu ac unrhyw gontractwyr ac is-gontractwyr i'r sefydliadau hynny yn cydymffurfio yn yr un modd.

- Cydymffurfio'n llawn â pholisi Llywodraeth y DU ar iechyd, diogelwch a lles.